Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Tegwch profiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY)

Mehefin 2023



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon / cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen / cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Crynodeb gweithredol** **1**

**Cyflwyniad** **3**

**Cefndir** **4**

**Prif ganfyddiadau** **7**

**Argymhellion** **11**

**Profiadau'r cwricwlwm** **12**

Y Cwricwlwm i Gymru 12
Profiadau'r cwricwlwm 14
Mynediad at addysg amser llawn 16
Llais y disgybl 18

**Sicrhau ansawdd arlwy'r cwricwlwm** **20**

Rôl yr awdurdod lleol 20
Prosesau sicrhau ansawdd awdurdodau lleol 21
Monitro mynediad at arlwy cwricwlwm amser llawn 23
Ymglymiad aelodau etholedig awdurdodau lleol 24

**Pontio rhwng AHY ac ysgol brif ffrwd neu addysg bellach, hyfforddiant, neu gyflogaeth** **25**

Dychwelyd i ysgol brif ffrwd 25
Pontio i addysg bellach, hyfforddiant, neu gyflogaeth 28

**Atodiad 1: Gofynion y cwricwlwm ar gyfer darparwyr AHY** **30**

**Dulliau a sail y dystiolaeth** **31**

**Geirfa** **33**

**Cyfeiriadau** **34**

# Crynodeb gweithredol

Weithiau, mae angen i awdurdodau lleol drefnu i ddisgyblion gael mynediad at addysg heblaw yn yr ysgol (AHY). Gallai hyn fod oherwydd bod disgybl yn sâl, wedi cael ei wahardd, neu mewn perygl o gael ei wahardd, neu'n cael trafferth manteisio ar yr ysgol oherwydd ei anghenion cymdeithasol ac emosiynol neu les.

Ers y pandemig, dywed awdurdodau lleol y bu cynnydd yn y cyfraddau atgyfeirio ar gyfer darpariaeth AHY. Mae hyn yn arbennig o amlwg ar gyfer gwasanaethau tiwtora wedi'u trefnu gan awdurdodau lleol. Bu cynnydd hefyd mewn atgyfeiriadau ar gyfer disgyblion oedran cynradd iau. Mae gan fwy o ddisgyblion sy'n cael eu hatgyfeirio anghenion cymdeithasol, emosiynol, ac iechyd meddwl (CEIM) sylweddol, yn hytrach nag anghenion ymddygiadol, sydd wedi bod yn wir yn hanesyddol.

Yn gyffredinol, mae unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn gwneud cynnydd priodol tuag at gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, a gefnogir yn briodol gan wasanaethau gwella ysgolion mewn llawer o achosion. Mae ehangder a chydbwysedd arlwy'r cwricwlwm ar draws UCDau yn briodol ac yn gwella. Mae hyn yn hynod amlwg ar gyfer disgyblion oedran uwchradd hŷn, sydd â llwybrau cymhwyster cynyddol amrywiol sy'n cefnogi disgyblion i fanteisio ar addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae bron pob un o'r UCDau wedi cryfhau eu hymagweddau o ran y ddarpariaeth gyfan at iechyd a lles emosiynol i ymateb i anghenion eu disgyblion. Mae arweinwyr UCDau wedi buddsoddi mewn dysgu proffesiynol i wella dealltwriaeth staff o ymagweddau penodol at gefnogi iechyd a lles emosiynol eu disgyblion. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r ymagweddau hyn yn ategu arlwy'r cwricwlwm yn gryf.

Er bod yr holl awdurdodau lleol yn disgwyl i ddisgyblion AHY gael mynediad at arlwy cwricwlwm amser llawn, lle bo'n briodol, mae gormod o ddisgyblion yn cael mynediad at addysg ran-amser yn unig. Ledled Cymru, mae ansawdd y rhaglenni cymorth bugeiliol i gefnogi trefniadau rhan-amser, a'r defnydd ohonynt, yn anghyson. Nid yw awdurdodau lleol yn monitro'r trefniadau hyn yn ddigon trylwyr ac mae hyn yn effeithio ar hawl plant a phobl ifanc i gael addysg amser llawn.

Ran amlaf o lawer, mae'n well gan ddisgyblion fynychu eu UCD nag ysgol brif ffrwd. Ychydig iawn o ddisgyblion a gafodd eu cyfweld oedd yn hiraethu am eu hysgol brif ffrwd neu eisiau dychwelyd yno. Maent yn teimlo y gwrandewir arnynt a'u bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am y cwricwlwm, yn enwedig disgyblion oedran uwchradd hŷn. Maent yn mynegi eu pryderon ar gyfer dychwelyd i addysg brif ffrwd yn dda ac yn siarad yn wybodus am yr hyn y maent yn eu dirnad yw'r rhwystrau. Maent yn credu'n gryf fod eu lles yn cael blaenoriaeth mewn UCDau, ac o ganlyniad, yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, y gwrandewir arnynt a'u bod yn gallu dysgu trwy gael cymorth arbenigol. Mae hyn yn aml mewn cyferbyniad â'r hyn a brofon nhw yn eu hysgol brif ffrwd. O ganlyniad, mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwella yn ystod eu cyfnod yn eu UCD.

Bu gwelliannau o ran y defnydd o banelau gwneud penderfyniadau ar draws bron pob un o'r awdurdodau lleol i bennu'r ddarpariaeth AHY sydd ei hangen ar gyfer

disgyblion unigol. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys ystod ehangach o aelodau panel sy'n meddu ar arbenigedd priodol ac ansawdd gwell o wybodaeth a gyflwynir gan ysgolion prif ffrwd i lywio'r broses gwneud penderfyniadau yn fwy cywir.

Mae prosesau awdurdodau lleol ar gyfer cytuno ar hyd lleoliadau AHY ac adolygu trefniadau lleoliadau yn parhau i fod yn anghyson. Pan mae arfer yn fwyaf effeithiol, caiff hyd y lleoliadau a threfniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys dyddiadau adolygu ar gyfer lleoliadau disgyblion, eu cytuno fel rhan o gyfarfod panel cychwynnol yr awdurdod lleol. Mae hyn yn darparu disgwyliadau, rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer y darparwr AHY, yr ysgol brif ffrwd a swyddogion monitro awdurdodau lleol.

Mae gormod o ddisgyblion oedran cynradd ac oedran uwchradd iau yn aros mewn darparwyr AHY dros y tymor hir. O ganlyniad, ychydig iawn o'r disgyblion hyn yn unig sy'n dychwelyd i ysgol brif ffrwd. Mae disgyblion uwchradd hŷn yn aros mewn darparwyr AHY gyda ffocws ar ennill cymwysterau, sy'n eu harfogi â'r medrau angenrheidiol ar gyfer eu cyrchfannau nesaf. At ei gilydd, dywedodd yr awdurdod lleol fod niferoedd y disgyblion sy'n gadael darparwyr AHY nad ydynt yn cael mynediad at addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth, yn isel.

Mae'r prif rwystrau rhag ailintegreiddio disgyblion yn llwyddiannus i ysgolion prif ffrwd yn cynnwys lefelau a chymhlethdod cynyddol anghenion disgyblion, yn enwedig ar gyfer anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl (CEIM), anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY), yn ogystal ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) gwaelodol eraill. O ganlyniad, gall y lefelau angen hyn effeithio ar hyd y lleoliad ar gyfer disgyblion. Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae UCDau yn gweithredu'n debycach i ysgolion arbennig, ac mae lleoliadau disgyblion yn rhai tymor hir yn yr UCD.

Nid yw lleiafrif o brosesau awdurdodau lleol i sicrhau ansawdd a chefnogi gwelliant mewn AHY mewn darparwyr AHY wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae sicrhau ansawdd arlwy'r cwricwlwm mewn unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn fwy trylwyr nag ydyw mewn darparwyr AHY allanol wedi'u comisiynu gan awdurdodau lleol.

# Cyflwyniad

Ysgrifennir yr adroddiad thematig hwn i ymateb i gais am gyngor gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn ei lythyr cylch gwaith at Estyn ar gyfer 2022/23. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o brofiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n mynychu darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) ledled Cymru. Mae'n gwerthuso tegwch arlwy'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n cael eu lleoli mewn darpariaethau addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys eu cyfle i fanteisio ar arlwy cwricwlwm amser llawn neu ran-amser. Mae hefyd yn ystyried pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn gwerthuso a gwella ansawdd ac effaith y ddarpariaeth, ac yn adrodd ar y cyfnod pontio rhwng darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ac ysgolion neu ddarpariaeth ôl-16. Rydym yn amlygu enghreifftiau o arfer dda mewn awdurdodau lleol lle mae ansawdd arlwy'r cwricwlwm yn cefnogi anghenion y disgyblion yn llwyddiannus, ac yn cefnogi eu dychweliad i addysg brif ffrwd, addysg bellach, hyfforddiant, neu gyflogaeth, yn effeithiol.

Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o 17 o ymatebion a dderbyniom o arolygon a anfonwyd at yr holl awdurdodau lleol. Yn ychwanegol, gwnaethom gyfarfod â swyddogion arweiniol ar gyfer AHY o 19 awdurdod lleol. O ganlyniad, casglom wybodaeth gan bob awdurdod lleol yng Nghymru, ar wahân i un. Gwnaethom gyfarfod hefyd â chynrychiolwyr o wasanaethau gwella ysgolion ac ymweld ag wyth UCD. Yn ystod yr ymweliadau hyn, gwnaethom gyfarfod ag arweinydd yr UCD ac arweinwyr ar gyfer y cwricwlwm. O ran cyfanswm, ymgysylltom â thros 40 o ddisgyblion ar draws yr wyth UCD. Mae tystiolaeth o'r naw arolygiad UCD er mis Ionawr 2019 wedi'i chynnwys hefyd. Gellir cael mwy o fanylion am sail y dystiolaeth yn adran dulliau a sail y dystiolaeth yr adroddiad. Ni chynhaliwyd unrhyw ymweliadau â darparwyr AHY eraill ac ni wnaethom gynnwys ysgolion arbennig annibynnol na darparwyr allanol a ddefnyddir gan ysgolion prif ffrwd yn yr adolygiad. Er bod awdurdodau lleol yn gallu trefnu AHY ar gyfer disgyblion hŷn, canolbwyntiodd yr adolygiad hwn ar ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol yn unig.

Y gynulleidfa fwriadedig ar gyfer yr adroddiad hwn yw Llywodraeth Cymru, arweinwyr, a staff ysgolion a darparwyr AHY, awdurdodau lleol, a gwasanaethau gwella ysgolion. Bydd yr adroddiad yn cyfrannu at drafodaethau proffesiynol ac yn llywio gwaith Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru ar AHY i gryfhau arweiniad a chymorth y Fframwaith Gweithredu ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a gwella gwaith awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gyflwyno darpariaeth AHY. Gallai fod o ddiddordeb i rieni disgyblion sy'n manteisio ar ddarpariaeth AHY hefyd.

# Cefndir

## Beth yw AHY?

Weithiau, mae angen i awdurdodau lleol drefnu i ddisgyblion gael mynediad at ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (AHY). Gallai hyn fod oherwydd bod disgybl yn sâl, mae wedi cael ei wahardd, neu mewn perygl o gael ei wahardd, neu'n cael trafferth manteisio ar ysgol oherwydd ei anghenion cymdeithasol ac emosiynol neu les.

Mae canllawiau 'Cynnwys a chynorthwyo disgyblion' Llywodraeth Cymru, 2016, yn disgrifio'r ddarpariaeth AHY sydd ar gael yng Nghymru, gan gynnwys UCDau, gwasanaethau tiwtora wedi'u trefnu gan awdurdodau lleol, addysg yn gysylltiedig â gwaith, darparwyr hyfforddiant, sefydliadau'r trydydd sector a phecynnau wedi'u teilwra, fel cyfuniad o ddarparwyr sydd â phresenoldeb rhan-amser mewn ysgol brif ffrwd.

Ym mis Chwefror 2022, roedd 2,254 o ddisgyblion yn cael mynediad at ryw fath o ddarpariaeth AHY, sef 4.8 o bob 1,000 o ddisgyblion yng Nghymru, sy'n ostyngiad o 5.6 o bob 1,000 o ddisgyblion yn 2009/10 (Llywodraeth Cymru, 2022b). Y ddarpariaeth AHY fwyaf cyffredin a ddefnyddir yw UCDau, gyda 44.5% o'r holl ymrestriadau AHY. O fis Ionawr 2023, roedd 21 o UCDau wedi'u cofrestru ledled Cymru. Mae pum awdurdod lleol heb UCD gofrestredig, sef: Castell-nedd Port Talbot, Bro Morgannwg, Ynys Môn, Gwynedd, a Blaenau Gwent. Mae un UCD yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, yng Ngheredigion.

Mae'r trefniadau cofrestru ar gyfer disgyblion sy'n derbyn AHY yn amrywio. Mae hyn yn cynnwys disgyblion â chofrestriad deuol rhwng ysgol ac UCD. Fel arall, gall disgyblion gael cofrestriad sengl gydag UCD. Ar ôl nodi bod angen darpariaeth AHY ar ddisgybl, cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw cydlynu a chyllido'r ddarpariaeth. O'r 2,254 o ddisgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth AHY ym mis Chwefror 2022, mae 1,814 yn cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol **yn bennaf**, sef 3.8 o bob 1,000 o ddisgyblion yng Nghymru, sy'n gynnydd o 2.1 o bob 1,000 o ddisgyblion yn 2009/10. Yn ychwanegol, mae nifer gynyddol o ddisgyblion iau yn dechrau mewn darpariaethau AHY (Llywodraeth Cymru, 2022b).

## Y Cwricwlwm i Gymru

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cynnig mwy o hyblygrwydd, a'i nod yw bod pob disgybl yn elwa ar ymgysylltu ag ystod eang o brofiadau dysgu. Cydnabyddir y gellir cyfuno dysgu mewn lleoliadau AHY ag addysg ran-amser mewn ysgol brif ffrwd fel rhan o'r pecyn a gynlluniwyd i ddarparu addysg addas. O'r herwydd, yn aml, mae angen i'r cwricwlwm fod yn fwy hyblyg ar gyfer AHY nag addysg brif ffrwd. Rhoddir pwyslais ar gynnydd addysgol yn ogystal â'r ffocws mewn darpariaethau AHY i gynorthwyo disgyblion i oresgyn a mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny sy'n eu hatal rhag cael mynediad at ddarpariaeth brif ffrwd amser llawn.

Amlygodd ein hadroddiad yn 2016, 'Addysg heblaw yn yr ysgol' nad oedd darpariaeth AHY, ar y cyfan, yn rhoi'r un mynediad i ddisgyblion at eu hawliau cwricwlwm â'u cyfoedion mewn ysgolion prif ffrwd. Arhosodd lleiafrif o ddisgyblion am fwy nag 15 diwrnod i gael mynediad at ddarpariaeth, derbynion nhw gwricwlwm cyfyngedig, neu dilynon nhw gyrsiau nad oeddent yn ddigon heriol. Yn ychwanegol, nododd yr adroddiad nad oedd darpariaethau AHY yn rhoi mynediad at gwricwlwm eang a chytbwys i alluogi disgyblion i ennill cymwysterau sy'n diwallu eu hanghenion a'u potensial.

Ym mis Medi 2022, ailsefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Cynghori AHY i adolygu a diweddaru'r Fframwaith ar gyfer Gweithredu AHY (Llywodraeth Cymru, 2017b; 2019b) gan ystyried Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i AHY, Senedd Cymru 2019 a deuddeg egwyddor allweddol darpariaeth AHY a gododd o'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad.

Gweithiodd Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru ar AHY gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu canllawiau i gefnogi gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru mewn lleoliadau AHY. Mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu gofynion gorfodol clir yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 gan gynnwys ar gyfer UCDau a darpariaeth AHY arall, fel yr amlinellir yn **Atodiad 1.**

Mae'r dyletswyddau cyfreithiol a osodir ar ysgolion a gynhelir o ran y cwricwlwm y mae'n rhaid iddynt ei gyflwyno yn wahanol i'r dyletswyddau a osodir ar UCDau ac awdurdodau lleol. Mae Cwricwlwm i Gymru - canllawiau ar addysg heblaw yn yr ysgol (Llywodraeth Cymru, 2022c) ar gyfer darpariaeth AHY, sy'n cael 'ei hariannu, ei threfnu a/neu'i chyflwyno gan awdurdodau lleol.' Fodd bynnag, mae egwyddorion cynllunio, dylunio a gweithredu'r cwricwlwm ac asesu yr un fath ar gyfer lleoliadau prif ffrwd ac AHY, at ei gilydd.

Yn ein hadroddiad yn 2022, cydnabuwyd bod y pedwar consortiwm rhanbarthol a'r tri awdurdod lleol nad ydynt mewn rhanbarth mwyach wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer cefnogi ysgolion ac UCDau i ddatblygu eu cwricwlwm a gwella addysgu. Yn ychwanegol, mae pob un ohonynt wedi datblygu modelau buddiol sy'n amlygu egwyddorion pwysig cynllunio cwricwlwm yn llwyddiannus mewn ysgolion ac UCDau. Cydnabu'r adroddiad hefyd fod pob un ohonynt wedi gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddatblygu rhaglen dysgu proffesiynol genedlaethol i gefnogi ysgolion ac UCDau. Ar yr adeg honno, darparwyd trosolwg damcaniaethol defnyddiol gan y cyfleoedd dysgu proffesiynol hyn.

## Prosesau sicrhau ansawdd awdurdodau lleol ar gyfer y cwricwlwm

Mae canllawiau 2016 'Cynnwys a chynorthwyo disgyblion' (Llywodraeth Cymru) yn datgan yn glir fod awdurdodau lleol yn parhau i fod yn atebol am ansawdd addysg ar gyfer AHY ran-amser neu amser llawn. Dylai monitro a gwerthuso darpariaeth ffurfio elfen allweddol yn strategaethau awdurdodau lleol, a dylid eu cynnwys yn eu cynlluniau integredig sengl.

Yn ein hadroddiad yn 2016, adroddom nad yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn monitro nac yn goruchwylio darpariaeth AHY yn ddigon trylwyr. Nododd yr adroddiad hwn hefyd, er bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn casglu data ar y cymwysterau

a enillwyd gan ddisgyblion sy'n derbyn AHY, mai lleiafrif yn unig o awdurdodau lleol oedd yn monitro ac yn gwerthuso cynnydd disgyblion sy'n derbyn AHY.

## Dychwelyd i addysg brif ffrwd

Nododd Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i AHY (Senedd Cymru, 2019a) ddeuddeg o egwyddorion sy'n cynnwys y cymorth i ddysgwyr ddychwelyd i addysg brif ffrwd. Mae'r adroddiad yn amlygu y dylai'r system 'annog dull, sydd wedi'i greu o amgylch rhagdybiaeth y bydd mwyafrif y dysgwyr, lle bo'n ddiogel ac yn briodol, yn cael eu cefnogi i ddychwelyd i addysg brif ffrwd – dylai hyn gynnwys sicrhau bod dyheadau a disgwyliadau uchel ar gyfer darpariaeth AHY, a bod gweithredu'r cwricwlwm newydd yn uchelgeisiol am gyfleoedd dysgu a chyfleoedd bywyd dysgwyr sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol'. O ganlyniad i'r ymchwiliad, eir ymlaen â'r deuddeg egwyddor hyn fel rhan o Fframwaith adnewyddedig ar gyfer Gweithredu Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2019b).

Yn ein hadroddiad yn 2015, rydym yn nodi strategaethau ailintegreiddio effeithiol yn glir. Cydnabu'r adroddiad fod ailintegreiddio llwyddiannus i ysgolion prif ffrwd yn amrywio'n sylweddol. Fodd bynnag, nodwyd sawl dull llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys lle cadwodd disgyblion gysylltiadau agos â'u hysgolion prif ffrwd, lle parhaodd disgyblion i ddychwelyd yn rheolaidd i'w hysgol brif ffrwd bob wythnos, a'r cyswllt rheolaidd rhwng staff yr ysgol brif ffrwd a'r UCD, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol eraill, lle bo'n berthnasol, a disgyblion yn aros ar gofrestr yr ysgol brif ffrwd.

Yn yr un adroddiad, cydnabyddir, pan gaiff disgyblion eu hailintegreiddio i ysgol yn llwyddiannus, fod disgyblion, rhieni, staff yr UCD a'r ysgol, yn meddu ar ddealltwriaeth glir mai ymyrraeth dargedig yn y tymor byr yw lleoliad mewn UCD. Fodd bynnag, i lawer o ddisgyblion 15 i 16 oed, nid yw dychwelyd i addysg brif ffrwd yn opsiwn priodol.

Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol hyn o gyflwyno'r cwricwlwm, sef gwerthuso, monitro, a chymorth awdurdodau lleol i wella darpariaeth AHY, a'r cyfleoedd i ddisgyblion ddychwelyd i addysg brif ffrwd, addysg bellach, hyfforddiant, neu gyflogaeth.

# Prif ganfyddiadau

## Profiadau'r cwricwlwm

1. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr UCDau yn cydnabod manteision y Cwricwlwm i Gymru a'r hyblygrwydd y mae hyn yn ei ddarparu ar gyfer cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Maent yn cydnabod bod angen ymarfogi disgyblion â'r offer addysgol i lwyddo wrth iddynt ddychwelyd i addysg brif ffrwd neu bontio i addysg bellach, hyfforddiant, neu gyflogaeth.

2. Mae'r cymorth mwyaf effeithiol i ddatblygu'r cwricwlwm ar gyfer staff UCD yn deillio o weithio fel rhan o drefniadau clwstwr ysgolion lleol. Pan fydd rhwydweithiau UCD rhanbarthol ar waith, nodir bod y rhain yn drefniadau gwerthfawr, sy'n galluogi cydweithwyr i gael trafodaethau proffesiynol a rhannu arfer dda. Nid yw hyn ar gael i ddarparwyr eraill addysg heblaw yn yr ysgol.

3. Mae llawer o UCDau yn ystyried [Cwricwlwm i Gymru - canllawiau ar addysg heblaw yn yr ysgol] (Llywodraeth Cymru, 2022c) yn dda fel rhan o gynllunio cwricwlwm yn gyffredinol, yn unol â chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Mewn llawer o UCDau, mae staff wedi elwa ar ddatblygiad proffesiynol gwerthfawr, sy'n canolbwyntio ar ymagweddau at gefnogi iechyd a lles emosiynol disgyblion.

4. Un o'r argymhellion yn ein [hadroddiad yn 2016] oedd 'y dylai ysgolion prif ffrwd weithio'n agos gyda darparwyr AHY i sicrhau parhad y cwricwlwm ar gyfer disgyblion o'u hysgol'. Cafwyd tystiolaeth gyfyngedig o gynnydd tuag at fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. Mewn lleiafrif o UCDau lle mae arfer yn effeithiol, ceir cysylltiadau llwyddiannus â'r ysgol brif ffrwd i rannu cynllunio'r cwricwlwm i wella parhad mewn dysgu ar gyfer disgyblion. Prin yw'r dystiolaeth o'r arfer hon ar draws darparwyr eraill ar gyfer AHY. Mae hyn yn parhau i fod yn faes i'w wella.

5. Mewn ychydig o UCDau lle mae arfer yn effeithiol, mae arlwy'r cwricwlwm yn y sector cynradd a disgyblion oedran uwchradd iau wedi'i deilwra i ddarparu ymyriadau targedig penodol i gefnogi anghenion pob disgybl a'u dychweliad i ysgol brif ffrwd. Mae perthnasoedd gweithio cryf yn parhau i fod ar waith rhwng yr ysgol brif ffrwd a'r UCD i gefnogi trefniadau lleoli ar y cyd. Mae'r rhain yn cynnwys mynediad at y cwricwlwm a chynllunio'r cwricwlwm ar y cyd i sicrhau parhad arlwy'r cwricwlwm gyda chyfleoedd gwerthfawr i staff y brif ffrwd arsylwi lleoliad y disgybl yn yr UCD.

6. Mewn llawer o UCDau, mae ehangder y cwricwlwm ar gyfer disgyblion oedran uwchradd hŷn i gefnogi cyfnod pontio i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth, yn effeithiol. Mae cynnwys y cwricwlwm yn galluogi disgyblion i elwa ar ystod eang ac amrywiol o gymwysterau i gefnogi eu camau nesaf yn dda. Mae cymwysterau o'r fath yn darparu ystod addas o gymwysterau academaidd, personol a chymdeithasol a galwedigaethol sydd wedi'u teilwra yn unol ag anghenion unigol y disgybl. O ganlyniad, dywed awdurdodau lleol fod gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n gadael UCDau ac yn dod yn bobl ifanc 'nad ydynt yn ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth na hyfforddiant' (NACH).

7. Mae heriau o hyd i arweinwyr UCDau benodi athrawon pwnc arbenigol, ac mae gormod o UCDau sydd â mynediad cyfyngedig at gyfleusterau addysgu arbenigol. Fodd bynnag, mae nifer gynyddol o awdurdodau lleol yn buddsoddi mewn darpariaethau UCD gwell, ac wedi'u hadeiladu'n bwrpasol, mewn rhai achosion, sydd wedi'u harfogi'n llawn i gefnogi arlwy'r cwricwlwm llawn.

8. Mae gan ormod o ddisgyblion drefniadau addysg ran-amser nad ydynt yn cael eu cytuno'n gyson â'r awdurdod lleol. Ni chaiff rhaglenni cymorth bugeiliol eu defnyddio'n effeithiol na'u monitro'n ddigon da. O ganlyniad, mae addysg ran-amser yn aros yn ei lle am gyfnod rhy hir ac yn effeithio ar hawl disgyblion i arlwy cwricwlwm llawn. Nid yw prosesau i nodi, monitro, adolygu a herio'r trefniadau amserlenni rhan-amser hyn gan awdurdodau lleol yn ddigon cadarn.

9. I ddisgyblion sy'n derbyn gwasanaethau tiwtora, mae ychydig iawn o awdurdodau lleol yn darparu mwy na 10 awr o addysg bob wythnos. Mae'r cynnig hwn yn effeithio ar gyfleoedd i elwa ar arlwy cwricwlwm llawn. At ei gilydd, mae gormod o ddisgyblion sy'n derbyn gwasanaethau tiwtora wedi'u trefnu gan yr awdurdod lleol, nad ydynt yn cael mynediad at arlwy cwricwlwm llawn. Mae hyn yn cyfyngu eu cyfleoedd i ddychwelyd yn amser llawn i addysg brif ffrwd.

10. Pan mae disgyblion yn cael addysg ran-amser mewn UCD neu ddarparwr AHY allanol ac ysgol brif ffrwd, nid yw llawer o ddisgyblion yn mynychu eu hysgol brif ffrwd pan y dylent. Yn nodweddiadol, mae'n ymddangos bod hyn yn digwydd pan nad yw disgyblion yn cael cymorth da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol brif ffrwd, ac nid yw'r cyfathrebu a'r rhyngweithio rhwng yr ysgol brif ffrwd a'r darparwr AHY wedi'i ddatblygu'n ddigonol. O ganlyniad, caiff disgyblion gyfnodau amser pan nad ydynt mewn addysg, ac mae hyn yn codi pryderon am y trefniadau diogelu ar gyfer y disgyblion hyn.

11. Ran amlaf o lawer, mae'n well gan ddisgyblion fynychu eu UCD na'u hysgol brif ffrwd. Ychydig iawn o ddisgyblion a gafodd eu cyfweld oedd yn gweld eisiau eu hysgol brif ffrwd neu eisiau dychwelyd yno. Maent yn teimlo y gwrandewir arnynt a'u bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am y cwricwlwm, yn enwedig disgyblion oedran uwchradd hŷn. Maent yn mynegi eu pryderon ynglŷn â dychwelyd i addysg brif ffrwd yn dda ac yn siarad yn wybodus am yr hyn y maent yn eu hamgyffred yw'r rhwystrau. Mae'r rhain yn cynnwys safbwyntiau fod ysgolion yn rhy fawr ac nad yw aelodau staff enwebedig ar gael yn rheolaidd i ddisgyblion pan fydd angen cymorth arnynt. Maent hefyd yn poeni nad yw ysgolion yn rhoi cyfleoedd digonol iddynt siarad am sut maent yn teimlo neu'n darparu cymorth i reoli eu teimladau yn fwy priodol. Maent yn credu'n gryf fod eu lles yn flaenoriaeth mewn UCDau, ac o ganlyniad, yn teimlo'u bod yn cael mwy o gymorth ac yn gallu cael mynediad at ddysgu trwy gymorth arbenigol.

## Prosesau sicrhau ansawdd

12. Mae'r pandemig wedi cael, ac yn parhau i gael, effaith negyddol ar draws awdurdodau lleol gyda chynnydd mewn cyfraddau atgyfeirio ar gyfer darpariaeth AHY. O ganlyniad, mae nifer y disgyblion mewn darparwyr AHY yn cynyddu, ac mae angen i ddisgyblion aros yn hirach i elwa ar ddarpariaeth. Mae llawer o awdurdodau lleol yn nodi cynnydd mewn atgyfeiriadau ar gyfer disgyblion iau, a disgyblion ag

anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl yn hytrach nag anghenion ymddygiadol, sydd wedi bod yn wir yn hanesyddol, yn ogystal â disgyblion sydd angen gwasanaethau tiwtora.

13. Bron ym mhob un o'r awdurdodau lleol, nid oes unrhyw brosesau ffurfiol i werthuso a gwella arlwy'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion ar draws eu darpariaethau AHY o gymharu â'u lleoliadau prif ffrwd. Mae goruchwyliaeth yn hynod wan ar gyfer darparwyr AHY nad ydynt yn UCDau neu'n ysgolion annibynnol. O ganlyniad, ni all swyddogion awdurdodau lleol, a'u partneriaid gwella ysgolion, lunio barnau cadarn ar sail tystiolaeth ar ehangder ac ansawdd arlwy'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion AHY, na gweithio'n ddigon da gyda darparwyr unigol i gefnogi gwelliant. Mae cymorth a her mewn UCDau yn fwyaf effeithiol pan gynhelir ymweliadau pwrpasol sefydledig a mynych gan bartneriaid gwella ysgolion sydd â phrofiad arwain mewn ysgolion arbennig neu UCDau.

14. Mae gormod o ddisgyblion yn aros mewn darparwyr AHY, ac yn enwedig UCDau, yn rhy hir. Mae hyn yn effeithio ar allu darparwyr i gyflawni ymyriadau tymor byr a dychwelyd disgyblion i ysgolion prif ffrwd yn ddigon cyflym.

15. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi gwella'u defnydd o banelau gwneud penderfyniadau i bennu'r ddarpariaeth AHY sydd ei hangen ar gyfer disgyblion unigol. Er enghraifft, maent wedi ehangu cynrychiolaeth panel ac wedi cryfhau ansawdd y wybodaeth a gyflwynir gan ysgolion prif ffrwd i gefnogi'r broses gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, o ganlyniad i nifer ac amlder panelau, gall penderfyniadau am leoliadau fod yn rhy gymhleth a hir, sy'n oedi mynediad at leoliadau ar gyfer disgyblion.

16. Mae gormod o awdurdodau lleol nad ydynt yn nodi'n glir beth yw hyd disgwyliedig lleoliad mewn darparwyr AHY ar gyfer disgyblion. Yn yr un modd, nid yw prosesau adolygu ar gyfer lleoliadau disgyblion mewn darparwyr AHY wedi'u datblygu'n ddigonol mewn llawer o awdurdodau lleol.

17. Yn y blynyddoedd diwethaf, bu gwelliannau yn y mecanweithiau adrodd i sicrhau bod aelodau etholedig yn cael gwybod am ddarpariaethau AHY. Mae hyn yn galluogi aelodau i herio a chwestiynu ansawdd a gwerth am arian y ddarpariaeth AHY o fewn eu hawdurdod lleol yn effeithiol.

18. At ei gilydd, mae llawer o awdurdodau lleol yn defnyddio'r diffiniad cyfreithiol o AHY i helpu llywio eu trefniadau a'u darpariaeth AHY. Mewn ychydig o awdurdodau, mae cynnwys niferoedd y disgyblion addysg ddewisol yn y cartref a threfniadau a ariennir gan ysgolion prif ffrwd sy'n defnyddio darparwyr allanol nad ystyrir eu bod yn ddarpariaeth AHY yn rhoi darlun anghywir o niferoedd y disgyblion sy'n cael AHY yn eu hardal leol.

### Cyfnod pontio rhwng darpariaeth AHY ac ysgolion prif ffrwd neu addysg bellach, hyfforddiant, neu gyflogaeth

19. Nifer fach iawn o ddisgyblion AHY sydd wedi dychwelyd i ysgol brif ffrwd yn llwyddiannus dros y pedair blynedd ddiwethaf o hyd, yn ôl yr hyn a adroddwyd gan bron bob awdurdod lleol. Mewn lleiafrif o awdurdodau lleol, mae prosesau i gynllunio

ar gyfer ailintegreiddio disgyblion i addysg brif ffrwd yn wan. Rhwystr rhag ailintegreiddio disgyblion yn llwyddiannus i ysgolion prif ffrwd yw cymhlethdod anghenion disgyblion, sy'n gallu cynnwys anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae UCDau yn gweithredu mwy yn unol ag ysgolion arbennig gan fod lleoliadau disgyblion yn rhai tymor hir.

20. Pan mae arfer yn effeithiol, mae cynlluniau clir ar waith i ystyried hyd y cyfnod y caiff disgyblion eu lleoli mewn darpariaeth AHY. Caiff rolau a chyfrifoldebau'r ysgol brif ffrwd a'r trefniadau pontio ar gyfer dychwelyd i ysgol brif ffrwd amser llawn neu addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth, eu nodi'n glir pan fyddant yn dechrau yn y ddarpariaeth AHY. Caiff lleoliadau eu hadolygu'n rheolaidd a'u haddasu i gefnogi anghenion unigol pob disgybl yn gadarn gan y darparwr AHY a'r awdurdod lleol. Mae'r broses hon yn llai cadarn lle mae awdurdodau lleol yn comisiynu darparwyr AHY allanol.

21. Mewn ychydig o UCDau, mae awdurdodau lleol wedi cyflwyno darpariaeth dosbarth bach ychwanegol yn ddiweddar, yn benodol i dargedu cymorth dwys tymor byrrach ar gyfer disgyblion cynradd a disgyblion oedran uwchradd iau. Pan mae'r trefniadau hyn ar waith, mae awdurdodau lleol yn dechrau gweld nifer gynyddol, ond bach, o ddisgyblion yn dychwelyd i ysgol brif ffrwd gyda chymorth.

22. Mae cyfleoedd i ddychwelyd i ysgol brif ffrwd ar gyfer disgyblion oedran uwchradd hŷn yn parhau i fod yn opsiwn, er ei bod yn llai tebygol mai dyma'r llwybr ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion. Bron ym mhob awdurdod lleol, mae arlwy'r cwricwlwm ar gyfer y disgyblion hyn yn canolbwyntio ar gefnogi symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae hyn yn fwyaf effeithiol pan gaiff arlwy'r cwricwlwm a'r cymhwyster ei deilwra i ddiwallu anghenion, diddordebau a dyheadau disgyblion.

## Argymhellion

**Dylai UCDau ac ysgolion prif ffrwd:**

1. Rannu arfer â'i gilydd a gweithio gydag awdurdodau lleol, disgyblion, a rhieni i gryfhau cyfleoedd i ddisgyblion ddychwelyd i addysg brif ffrwd

2. Monitro presenoldeb disgyblion yn agos i sicrhau eu bod yn elwa ar eu darpariaeth lawn ac, yn benodol, i ddiogelu disgyblion lle maent yn cael addysg ran-amser mewn gwahanol ddarparwr

**Dylai awdurdodau lleol a'u gwasanaethau gwella ysgolion:**

3. Gynorthwyo mwy o ddisgyblion i ddychwelyd i ysgol brif ffrwd lle bo'n briodol trwy:

    - gryfhau cymorth dwys tymor byr mewn darpariaeth AHY
    - sicrhau bod penderfyniadau am leoliadau'n cael eu gwneud yn brydlon ac yn nodi hyd cytunedig, rolau a chyfrifoldebau clir a dyddiad adolygu

4. Sicrhau darpariaeth cwricwlwm mewn UCDau sy'n diwallu anghenion pob un o'r disgyblion, gan weithio gyda'r pwyllgor rheoli a'r athro sydd â gofal.

5. Sicrhau darpariaeth cwricwlwm mewn darparwyr AHY heblaw UCDau.

6. Cryfhau'r prosesau sicrhau ansawdd a monitro i sicrhau bod arlwy'r cwricwlwm yn cael ei gyflwyno'n effeithiol mewn darparwyr AHY.

7. Herio a monitro presenoldeb disgyblion yn drylwyr ar draws darparwyr AHY, gan gynnwys defnydd priodol o amserlenni rhan-amser a rhaglenni cymorth bugeiliol.

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

8. Ddiweddaru a sicrhau bod y Fframwaith ar gyfer Gweithredu AHY yn cael ei gyflwyno, gan gynnwys yr holl ganllawiau atodol perthnasol ar AHY, i adlewyrchu argymhellion yr adroddiad hwn.

# Profiadau'r cwricwlwm

## Y Cwricwlwm i Gymru

Mae'r Cwricwlwm i Gymru, gyda'i ffocws ar y pedwar diben a dilyniant disgyblion, yn cynnig hyblygrwydd cwricwlaidd cynyddol, gan alluogi mwy o ddisgyblion i elwa ar ystod ehangach o brofiadau dysgu difyr. Cafodd ei ddatblygu i fod yn hygyrch i bawb. Dylai cynllunio, dylunio, a gweithredu cwricwlwm mewn UCDau a darpariaeth AHY arall ddarparu llwybr dilyniant clir i gefnogi pob disgybl.

Mae wedi bod yn ofynnol i'r holl ysgolion cynradd a lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir yng Nghymru weithredu eu cwricwlwm o fis Medi 2022 ar gyfer disgyblion hyd at Flwyddyn 6. Cafodd lleoliadau uwchradd ddewis i ymgysylltu â gofynion y Cwricwlwm i Gymru flwyddyn yn gynnar ym mis Medi 2022, o ran eu disgyblion Blwyddyn 7. Bydd y Cwricwlwm i Gymru yn orfodol ar gyfer holl ddysgwyr Blwyddyn 7 ac 8 o fis Medi 2023. Wedyn, mae'n ofynnol i ysgolion uwchradd gyflwyno'u trefniadau cwricwla newydd fesul blwyddyn trwodd i Flwyddyn 11 ym mis Medi 2026. Mae'r trefniadau hyn hefyd yn berthnasol i ddisgyblion o'r un oedrannau mewn UCDau a darparwyr AHY eraill.

Mae [canllawiau ar addysg heblaw yn yr ysgol Llywodraeth Cymru] (2022c) yn amlinellu beth sydd ei angen y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer pob disgybl yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, mae egwyddorion cynllunio, dylunio, a gweithredu'r cwricwlwm ac asesu yr un fath ar gyfer lleoliadau prif ffrwd ac AHY, at ei gilydd.

Mae llawer o UCDau yn ystyried canllawiau ar AHY y Cwricwlwm i Gymru yn ofalus fel rhan o'u cynllun cwricwlwm cyffredinol. Mae'r canllawiau hyn yn amlygu pwysigrwydd iechyd a lles emosiynol disgyblion, sydd wedi bod yn ganolog i gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm mewn UCDau dros sawl blwyddyn. Mae arweinwyr y rhan fwyaf o UCDau yn cydnabod yr angen i ddisgyblion gael eu harfogi â'r offer addysgol i lwyddo wrth iddynt ddychwelyd i addysg brif ffrwd neu bontio i addysg bellach, hyfforddiant, neu gyflogaeth.

**UCD Tŷ Glyn, Torfaen**

O fis Medi 2022, cyflwynodd yr UCD y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae arweinwyr a staff wedi bod yn treialu ac yn gwerthuso arlwy'r cwricwlwm dros gyfnod o sawl blwyddyn. Dros gyfnod, mae staff wedi magu hyder yn cynllunio cwricwlwm hyblyg i ddiwallu anghenion disgyblion.

Iechyd a lles yw'r maes cwricwlwm y maent wedi'i wella fwyaf. Erbyn hyn, maent yn darparu tua 7 i 8 o wersi bob wythnos ar gyfer yr holl ddisgyblion. Yn ystod y gwersi hyn, mae disgyblion yn dysgu am ystod eang o feysydd, fel amrywiaeth, diwylliant Prydeinig, anabledd a mudiad 'Mae Bywydau Du o Bwys'. Mae gweithdai'n canolbwyntio ar berthnasoedd iach, iechyd rhywiol a gwneud penderfyniadau sy'n cynnwys gwaith yn ymwneud â mentro.

O ganlyniad i'r ffocws cynyddol ar iechyd a lles, mae arweinwyr yn teimlo bod disgyblion yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel, ac yn deall sut i wneud penderfyniadau gwybodus. Mae disgyblion yn awyddus i gael deialog agored yn ystod amser gwersi ac yn rhannu eu pryderon personol a goblygiadau'r pryderon hyn. Mae arweinwyr yn gweld ymddygiad disgyblion yn gwella gan fod disgyblion yn gwybod y gallant siarad â staff sy'n deall eu pryderon ac yn eu cynorthwyo i gymryd camau priodol. O ganlyniad, mae ymgysylltiad disgyblion â dysgu yn gwella, ac mae disgyblion yn mwynhau mynychu'r UCD.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr UCDau yn cydnabod bod y Cwricwlwm i Gymru yn darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ymgysylltu â phrofiadau dysgu dilys sy'n cefnogi anawsterau cymdeithasol, emosiynol, ac ymddygiadol (ACEY), ac anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl (CEIM). Maent yn gweld bod yr ymagwedd fwy hyblyg at y cwricwlwm yn fuddiol, ac mae llawer o UCDau wedi dechrau cynllunio a gweithredu eu cwricwlwm ers tro.

**UCD Portffolio Darpariaeth Amgen Y Bont, Pen-y-bont ar Ogwr**

Mae'r cwricwlwm yn canolbwyntio ar iechyd meddwl, lles, ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh), gydag ymagwedd at gynllunio'r cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar y disgybl. Yn y sector cynradd, mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cael ei ddatblygu'n gadarnhaol. Caiff dysgu ei gynllunio trwy themâu a'i gyflwyno trwy'r meysydd dysgu a phrofiad (MDPh). Ar gyfer disgyblion iau yn y sector uwchradd, mae'r UCD yn treialu dull thematig tebyg yn barod ar gyfer ei weithredu'n llawn ym mis Medi 2023. Yn ychwanegol, mae pob un o'r disgyblion yn dewis ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau cyfoethogi, sy'n cynnwys chwaraeon, cerddoriaeth, therapi celf a therapi drama, i helpu cefnogi a datblygu eu medrau a'u diddordebau mynegiannol a chorfforol.

Caiff disgyblion ddylanwad cryf ar eu dysgu, er enghraifft trwy'r cyngor ysgol, sesiynau cynllunio'r cwricwlwm ac arolygon disgyblion. Mae athrawon yn addasu'r dysgu ac ystod y cymwysterau a gynigir i ymateb i syniadau disgyblion a gweddu i anghenion, galluoedd a diddordebau'r disgyblion.

Mae arweinwyr o'r farn fod ymgysylltiad disgyblion â dysgu wedi gwella dros gyfnod. Mae eu parodrwydd i roi cynnig ar brofiadau newydd wedi cynyddu, sy'n magu eu hunanhyder ac yn cefnogi hunanddelwedd gadarnhaol. Dywed arweinwyr hefyd fod hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar ymddygiad a phresenoldeb disgyblion, a'u rhyngweithio â'u cyfoedion.

Mae'r cymorth mwyaf effeithiol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm mewn mwyafrif o UCDau yn dod o weithio fel rhan o drefniadau clwstwr ysgolion lleol. Yn ychwanegol, pan mae grwpiau rhwydwaith UCD rhanbarthol yn gweithredu, mae hyn yn galluogi cydweithwyr i drafod a rhannu arfer effeithiol o amgylch cynllunio a gweithredu cwricwlwm i adlewyrchu gofynion y Cwricwlwm i Gymru, a diwallu anghenion disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r arferion hyn ar waith ar draws yr holl UCDau, nac ar gael i ddarparwyr AHY eraill.

Pan mae awdurdodau lleol yn comisiynu darparwyr allanol ar gyfer AHY, gan gynnwys ysgolion arbennig annibynnol, mae gan y rhan fwyaf ohonynt naill ai fframweithiau comisiynu neu brosesau rheoli contractau ar waith. Fel yr amlinellir yng nghanllawiau ar addysg heblaw yn yr ysgol Llywodraeth Cymru (2022c), mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ofynion y cwricwlwm y mae'r darparwyr hyn yn eu cynnig. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys addysgu a dysgu mewn meysydd eraill, yn ogystal â'r elfennau gorfodol. Atodiad 1. Fodd bynnag, ar draws y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae angen cryfhau trefniadau'r cwricwlwm.

## Profiadau'r cwricwlwm

Yn ein hadroddiad yn 2016, 'Addysg heblaw yn yr ysgol', nodom nad yw disgyblion sy'n derbyn AHY fel arfer yn cael mynediad at gwricwlwm eang a chytbwys sy'n eu galluogi i ennill cymwysterau sy'n diwallu eu hanghenion a'u potensial. Ers hynny, mae cynnydd yn amlwg yn y sector UCD gyda gwelliannau'n cael eu gweld yn ehangder y cwricwlwm ar gyfer disgyblion oedran uwchradd hŷn i gefnogi pontio i addysg bellach, hyfforddiant, neu gyflogaeth. Mae cynnwys y cwricwlwm yn galluogi disgyblion i fanteisio ar ystod o gymwysterau perthnasol i gefnogi eu camau nesaf yn dda mewn llawer o UCDau. Mae cymwysterau o'r fath yn darparu ystod addas o gymwysterau academaidd, personol, cymdeithasol a galwedigaethol sydd wedi'u teilwra i anghenion unigol y person ifanc. O ganlyniad, mae awdurdodau lleol yn adrodd am ostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n gadael UCDau ac yn dod yn bobl ifanc 'nad ydynt yn ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth na hyfforddiant' (NACH).

**Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion Sir Benfro**

Ar gyfer disgyblion oedran uwchradd hŷn, bu ffocws ar ymestyn arlwy'r cwricwlwm. O ganlyniad, mae'r UCD wedi ehangu'r cwricwlwm trwy ddarparu cyfleoedd i'r holl ddisgyblion ddysgu medrau trwy wahanol weithgareddau. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys padlfyrddio, pêl-fasged, bocsio, nofio, a chlwb trafod sy'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion ennill ystod o gymwysterau perthnasol. Mae llais y disgybl yn hanfodol i ddatblygu arlwy'r cwricwlwm. Mae cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn helpu staff i nodi cymorth ar gyfer disgyblion unigol, er enghraifft medr bywyd penodol, fel defnyddio arian. O ganlyniad, mae'r cwricwlwm yn paratoi disgyblion ar gyfer eu camau nesaf mewn addysg, hyfforddiant, neu gyflogaeth.

Mae disgyblion yn ymateb i'r hyblygrwydd yn yr ymagwedd at y cwricwlwm a'r gwahanol lwybrau cymhwyster sydd ar gael iddynt. Mae disgyblion yn cael cyfle i ddilyn amrywiaeth o gymwysterau TGAU, yn ogystal â chymwysterau galwedigaethol. Mae staff yn cefnogi disgyblion i godi eu dyheadau trwy amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys:

- rhaglen cyn-ymgysylltu â'r coleg
- gwaith gyda Gyrfa Cymru
- partneriaeth â chwmni hyfforddiant galwedigaethol
- cysylltiadau â diwydiant a phrentisiaethau.

O ganlyniad, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gadael yr UCD heb gyrchfan cynlluniedig.

Yn sail i arlwy'r cwricwlwm mae ffocws ar les ac iechyd emosiynol disgyblion, sy'n gysylltiedig ag angen disgybl unigol. Ceir perthynas weithio gadarnhaol ag asiantaethau eraill, gan gynnwys yr heddlu, nyrsys ysgol a'r gwasanaeth troseddau ieuenctid i ddarparu ymagwedd gysylltiedig at gynorthwyo pob disgybl yn yr UCD ac yn y gymuned. Mae tîm Emosiynol a Lles wedi'i leoli ar safle'r UCD i gefnogi rhannu gwybodaeth, hyfforddiant, a mynediad at gymorth cwricwlwm yn effeithiol ar gyfer pob un o'r disgyblion.

Rhwng mis Ionawr 2019 a mis Ionawr 2023, rydym wedi arolygu naw UCD. Mewn lleiafrif o'r adroddiadau, nid yw UCDau yn darparu cwricwlwm digon eang a chytbwys. Mae'r rhan fwyaf o'r UCDau yn darparu cwricwlwm effeithiol i gefnogi datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion, sy'n rhoi pwyslais cryf ar les emosiynol disgyblion. Yn y rhan fwyaf o UCDau, nid yw arlwy'r cwricwlwm ar gyfer y Gymraeg a'i diwylliant wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Yn ychwanegol, mewn llawer o UCDau, mae dilyniant medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig.

Yn y rhan fwyaf o UCDau a arolygwyd, gwnaed cynnydd effeithiol wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, ar gyfer disgyblion iau. Mae hyn yn fwy amrywiol ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 14 oed. Ar draws yr UCDau ar gyfer disgyblion 15 i 16 oed, mae amrywioldeb yn ystod y profiadau dysgu, gan gynnwys llwybrau cymhwyster i baratoi disgyblion ar gyfer pontio i addysg bellach, hyfforddiant, neu gyflogaeth. Dywed arweinwyr fod arlwy eu cwricwlwm galwedigaethol wedi cael ei effeithio gan y pandemig.

Mae heriau'n parhau i arweinwyr UCDau benodi athrawon pwnc arbenigol. Mewn ychydig o achosion, mae arweinwyr yn gweithio'n greadigol gydag ysgolion uwchradd lleol i rannu adnoddau addysgu ac athrawon arbenigol i gyfyngu effaith y problemau hyn ar ddysgu'r disgyblion. Yn ychwanegol, caiff gormod o ddarparwyr AHY fynediad cyfyngedig at gyfleusterau addysgu arbenigol, er enghraifft ar gyfer gwyddoniaeth. Mae yna ychydig o awdurdodau lleol yn buddsoddi mewn cyfleusterau UCD gwell, ac sydd wedi'u hadeiladu'n bwrpasol mewn rhai achosion, i gefnogi arlwy'r cwricwlwm llawn. Fodd bynnag, pan mae heriau o ran cyfleusterau recriwtio ac addysgu yn parhau, mae'r diffyg hwn yn golygu bod disgyblion yn colli agweddau pwysig ar addysg, sy'n gallu effeithio ar eu cyfleoedd cyflogaeth neu hyfforddiant yn y dyfodol. Adroddwyd am hyn yn ein hadolygiad yn 2016, 'Addysg heblaw yn yr ysgol', ac mae'n parhau i fod yn destun pryder.

Pan mae arfer yn effeithiol mewn UCDau, mae prosesau asesu ac olrhain wedi hen ennill eu plwyf. Maent yn cynorthwyo staff a disgyblion i ddeall cynnydd mewn dysgu ac yn nodi bylchau mewn dysgu y mae angen mynd i'r afael â nhw yn gyflym ac yn gywir. Mae profiadau dysgu wedi'u teilwra'n dda i anghenion disgyblion. Er enghraifft, pan nad yw disgyblion yn barod i fanteisio ar brofiadau dysgu yn y gymuned leol, mae UCDau yn darparu'r profiadau hyn ar y safle. Mewn sawl UCD, maent yn trefnu profiadau dysgu sy'n efelychu'r rhai a welir yn y gymuned, fel ymweliad â'r traeth, yr ysbyty, y deintydd neu'r caffi, ac maent yn defnyddio'r rhain yn dda i gefnogi dysgu disgyblion mewn amgylchedd diogel.

Un o'r argymhellion yn ein hadroddiad yn 2016, 'Addysg heblaw yn yr ysgol' oedd y dylai ysgolion prif ffrwd weithio'n agos gyda darparwyr AHY i sicrhau parhad yn y

cwricwlwm i ddisgyblion o'u hysgol' (tud. 8). Cafwyd tystiolaeth gyfyngedig o gynnydd tuag at fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. Mewn lleiafrif o UCDau lle mae arfer yn effeithiol, ceir cysylltiadau effeithiol â'r ysgol brif ffrwd i rannu cynllunio'r cwricwlwm i wella parhad mewn dysgu ar gyfer disgyblion. Prin yw'r dystiolaeth o'r arfer hon ar draws darparwyr allanol ar gyfer AHY. Mae hyn yn parhau yn faes i'w wella.

Mewn llawer o UCDau, mae staff wedi elwa ar ddysgu proffesiynol gwerthfawr, sy'n canolbwyntio ar ymagweddau at ddatblygu a chefnogi iechyd a lles emosiynol disgyblion. Yn y rhan fwyaf o achosion, cafwyd datblygiad proffesiynol yn uniongyrchol gan arweinwyr UCD.

**Bryn Y Deryn, Caerdydd**

Pan fydd disgyblion ym Mryn Y Deryn yn gweld dysgu'n heriol ac yn cael trafferth ymgysylltu, mae staff yn rhoi cymorth â lles ar waith, yn seiliedig ar ddulliau sy'n ystyriol o drawma i fynd i'r afael â'r problemau hyn, meithrin perthnasoedd ac adolygu'r rhwystrau rhag llwyddo yn y maes dysgu hwnnw. Mewn llawer o achosion, mae'r cymorth hwn yn canolbwyntio ar wella hunanhyder disgyblion a mynd i'r afael â bylchau yn eu dysgu. Mae'r sesiynau lles hyn yn caniatáu amser i ddisgyblion siarad â staff, er mwyn iddynt allu nodi'r ffyrdd gorau o'u cynorthwyo a'u helpu i lwyddo. Dywed arweinwyr fod hyn yn profi'n ddull llwyddiannus sy'n grymuso disgyblion ac yn eu helpu i ailymgysylltu â meysydd dysgu y maent wedi'u gweld yn anodd yn y gorffennol.

## Mynediad at addysg amser llawn

Yn ein hadroddiad, 'Addysg heblaw yn yr ysgol' (Estyn, 2016), amlygodd argymhelliad fod angen i awdurdodau lleol ddarparu cwricwlwm amser llawn ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n derbyn AHY, sy'n diwallu eu hanghenion, yn eu galluogi i gyflawni eu potensial, ac yn sicrhau eu bod yn cael eu hailintegreiddio ble bynnag y bo modd. Fel rhan o'r adolygiad thematig hwn, gwelsom fod hwn yn parhau i fod yn faes pwysig i'w wella.

Mae bron pob awdurdod lleol yn disgwyl i ddisgyblion mewn darparwyr AHY gael addysg amser llawn. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn cydnabod y gallai fod angen addysg ran-amser ar ddisgyblion am resymau penodol, er enghraifft disgyblion sy'n cael trafferth cael mynediad at eu darparwr AHY amser llawn oherwydd eu bod yn profi lefelau uchel o orbryder. Fel y nodwyd yn adroddiad Llywodraeth Cymru, 'Cynnwys a chynorthwyo disgyblion' (2016), dylai darparwyr AHY gytuno ar yr holl drefniadau rhan-amser gyda'u hawdurdod lleol. Pan fydd disgyblion yn cael mynediad at addysg ran-amser oherwydd anghenion ymddygiadol neu ymddieithrio, rhaid i bob disgybl gael rhaglen cymorth bugeiliol (RhCB) ar waith.

Ar hyn o bryd, mae gormod o ddisgyblion sydd â threfniadau rhan-amser nad ydynt yn cael eu cytuno gyda'r awdurdod lleol ymlaen llaw. Nid yw darparwyr AHY yn defnyddio nac yn monitro rhaglenni cymorth bugeiliol yn ddigon cyson nac yn ddigon da i gynorthwyo disgyblion. O ganlyniad, mae addysg ran-amser yn parhau i fod ar waith yn rhy hir ac yn effeithio ar hawl disgyblion i arlwy cwricwlwm llawn.

I ddisgyblion sy'n derbyn gwasanaethau tiwtora, mae ychydig iawn o awdurdodau lleol yn darparu mwy na 10 awr o addysg yr wythnos. Mewn ychydig iawn o awdurdodau lleol yn unig, mae disgyblion yn cael mynediad at gwricwlwm llawn fel

rhan o arlwy gwasanaeth tiwtora'r awdurdod lleol. Gallai hyn gynnwys mynediad ychwanegol at weithgareddau dysgu digidol ac iechyd a lles emosiynol. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae gormod o ddisgyblion sy'n derbyn gwasanaethau tiwtora awdurdodau lleol nad ydynt yn cael mynediad at arlwy cwricwlwm llawn. Mae hyn yn cyfyngu ar eu cyfleoedd i ddychwelyd i addysg brif ffrwd amser llawn.

**Rhondda Cynon Taf**

Mae'r awdurdod lleol yn darparu cyfuniad o diwtora cymunedol amser llawn ar gyfer disgyblion oedran uwchradd a thiwtora un i un, yn dibynnu ar anghenion ac oedran disgyblion. Gall hyd at dri deg o ddisgyblion elwa ar diwtora amser llawn yn y gymuned fel rhan o'r ddarpariaeth UCD gyffredinol. Mae'r awdurdod lleol ac arweinydd yr UCD yn cydnabod pwysigrwydd arlwy cwricwlwm llawn yn hytrach na 10 awr yr wythnos. Mae'r arlwy cynyddol hwn yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd ag ystod ehangach o brofiadau dysgu a medrau, ac yn eu cefnogi wrth iddynt ddychwelyd i addysg amser llawn.

Nod tiwtora cymunedol yw darpariaeth amser llawn dros dro cyn dychwelyd i ysgol brif ffrwd. Mae disgyblion yn parhau i fod â chofrestriad deuol gyda'u hysgol brif ffrwd a'r UCD yn ystod y trefniant tymor byr hwn. Gall yr holl ddisgyblion oedran uwchradd hŷn ddilyn hyd at 7 cymhwyster TGAU neu gymwysterau cyfatebol fel rhan o'u pecyn tiwtora os nad yw dychwelyd i ysgol brif ffrwd yn briodol.

Mae'r gwasanaeth tiwtora dan reolaeth UCD Tŷ Gwyn. Mae holl drefniadau cynllunio'r cwricwlwm ac asesu yn adlewyrchu rhai'r UCD. Mae sicrhau ansawdd a monitro arlwy'r cwricwlwm, a chynnydd disgyblion, yn rhan o broses yr UCD. Mae hyn yn darparu dull cyson a chyfleoedd ar gyfer rhannu adnoddau i gefnogi cynnydd disgyblion. Y llynedd, dychwelodd 26 o ddisgyblion o'r gwasanaeth tiwtora i addysg brif ffrwd amser llawn.

Ledled Cymru, mae disgwyliadau ar gyfer presenoldeb disgyblion mewn darparwyr AHY yn amrywio, yn dibynnu ar y gwahanol becyn AHY sydd ar waith ar gyfer pob disgybl. Er enghraifft, gallai disgyblion fynychu UCD am bedwar diwrnod yr wythnos, gan ddychwelyd i'w hysgol brif ffrwd am ddiwrnod. Pan mae arfer yn effeithiol, mae staff UCDau yn darparu cymorth am y cyfnod y mae disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol brif ffrwd. Mae hyn yn cynnwys cymorth i staff yr ysgol brif ffrwd ddatblygu strategaethau ymddygiad effeithiol, cymorth ar gyfer ymyriadau i fanteisio ar dechnegau dysgu a modelu i helpu disgyblion i aros yn bwyllog a chanolbwyntio. Mae'r dull hwn yn datblygu medrau staff prif ffrwd, yn caniatáu ar gyfer ymagwedd gyson at reoli ymddygiad disgyblion, ac yn gwella hyder disgyblion yn y lleoliad prif ffrwd. O ganlyniad, mae tebygolrwydd cynyddol y bydd disgyblion yn dychwelyd yn llwyddiannus i addysg brif ffrwd.

**Ysgol Plas Cefndy, Sir Ddinbych**

Mae gan Sir Ddinbych UCD portffolio pob oed, sy'n gweithredu ar draws tri safle. Mae disgyblion oedran cynradd yn cael lleoliadau tymor byr a rhan-amser yn yr UCD. Mae disgyblion naill ai'n mynychu am bump bore, gan dreulio'r prynhawniau yn eu hysgol brif ffrwd, neu i'r gwrthwyneb. Caiff disgyblion leoliad bloc, fel arfer am dymor, y gellir ei ymestyn os oes angen. Mae hyn yn galluogi disgyblion i gadw eu hunaniaeth yn eu hysgolion prif ffrwd ac yn sicrhau bod yr ysgol brif ffrwd yn

parhau i fod yn gyfrifol amdanynt, sy'n cefnogi ailintegreiddio llawn. Mae'r patrwm penodol hwn hefyd yn helpu cynllunio'r cwricwlwm rhwng yr ysgol a'r UCD. Mae staff yr UCD yn cynorthwyo'r disgyblion yn llawn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol brif ffrwd. Mae hyn yn cryfhau'r berthynas weithio rhwng yr ysgol a'r UCD. O ganlyniad, ceir cyfraddau dychwelyd uchel ar gyfer disgyblion oedran cynradd i'w hysgol brif ffrwd.

Pan nad yw disgyblion yn cael eu cynorthwyo'n dda yn eu hysgol brif ffrwd, ac nid yw'r cyfathrebu a'r rhyngweithio rhwng y darparwr AHY a'r ysgol brif ffrwd wedi'i ddatblygu'n ddigonol, nid yw llawer ohonynt yn mynychu'r ysgol brif ffrwd pan y dylent. Pan mae hyn yn digwydd, nid yw eu hysgol brif ffrwd bob amser yn ymwybodol o ble mae'r disgyblion, ac ni chaiff y disgyblion fynediad at addysg yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn yn ddiffyg sylweddol ac yn achosi pryder difrifol ynghylch diogelu.

Mae ein hadroddiad yn 2016, 'Addysg heblaw yn yr ysgol' yn datgan yn gyffredinol nad yw darpariaeth AHY yn rhoi'r un mynediad at eu hawliau addysg i ddisgyblion â'u cyfoedion. Yn ychwanegol, amlygodd yr adroddiad fod lleiafrif o ddisgyblion yn aros am fwy na 15 diwrnod i gael mynediad at y ddarpariaeth, maent yn derbyn cwricwlwm cyfyngedig, neu'n dilyn cyrsiau nad ydynt yn ddigon heriol. Gwelsom fod cynnydd wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn ar draws y rhan fwyaf o awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o awdurdodau lleol, mae'r amser a gymerir rhwng cytundeb y panel ar gyfer lleoliad AHY a mynediad gwirioneddol at y darparwr amser llawn yn parhau'n rhy hir. Yn ychwanegol, yn aml, nid oes unrhyw gymorth addysgol arall ar waith am y cyfnod y mae disgyblion yn aros i gael mynediad at eu lleoliad AHY amser llawn.

## Llais y disgybl

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn cyfrannu at yr hyn sy'n digwydd yn yr UCD, gan gynnwys beth maent yn hoffi ei wneud a beth mae angen ei wella yn y cwricwlwm. Rhoddodd disgyblion enghreifftiau o sut mae UCDau yn cyflawni hyn, er enghraifft trwy flychau awgrymiadau, byrddau awgrymiadau, amser dosbarth wythnosol i edrych ar yr hyn sydd wedi mynd yn dda, arolygon disgyblion, cyfarfodydd cynnydd a chyfarfodydd y cyngor ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r pynciau a gynigir, ac mewn llawer o achosion, ystod gynyddol yr opsiynau sydd ar gael iddynt. Mae'r ystod ehangach o brofiadau, fel dringo creigiau, abseilio, a nofio, yn ddifyr ac yn eu cymell i fynychu'n rheolaidd.

Siaradodd disgyblion yn frwdfrydig am enghreifftiau o ddysgu mewn pynciau, yr oeddent wedi'u colli yn yr ysgol brif ffrwd oherwydd eu habsenoldeb gwannach neu gyfnodau o waharddiadau. Mae disgyblion yn teimlo bod mwy o hyblygrwydd yn arlwy'r cwricwlwm mewn UCDau. Maent yn hoffi'r amrywiaeth o bynciau a chymwysterau sydd ar gael. Er enghraifft, cymwysterau TGAU, Gwobr Dug Caeredin, y Cyngor Addysg Busnes a Thechnoleg (BTEC) ac Agored Cymru. Maent yn gwerthfawrogi eu bod yn cael cyfle i astudio am gymwysterau ymarferol sy'n eu helpu i gael swydd.

Mae disgyblion oedran uwchradd hŷn yn teimlo'u bod yn cael eu cynorthwyo'n dda i'w helpu i feddwl am eu camau nesaf wrth baratoi ar gyfer gadael UCDau. Mae ymweliadau mynych gyda staff UCDau â cholegau a chyflogwyr lleol yn eu helpu i feddwl ynghylch pa opsiynau sydd ar gael iddynt pan fyddant yn gadael. Mae bron pob un o'r disgyblion yn yr ystod oedran hon yn sôn am y cymorth cryf gan gynghorwyr Gyrfa Cymru, sy'n treulio amser gyda disgyblion mewn UCDau yn rheolaidd.

Caiff bron pob o'r disgyblion fwy o gymorth gan staff yn yr UCDau o gymharu â'u profiadau yn y brif ffrwd. Maent yn teimlo eu bod yn cael cymorth â'u dysgu gan staff sy'n eu hadnabod yn dda. Maent yn gwerthfawrogi datblygu strategaethau ymdopi fel seibiannau mewn dysgu ac amser i siarad â staff.

Cytunodd bron pob un o'r disgyblion fod staff yn gwrando arnynt ac maent ar gael bob amser i siarad, yn enwedig pan fyddant yn cael anhawster mewn gwersi. Maent yn nodi bod staff yn gwrando ond nid ydynt yn barnu'r hyn y maent yn ei ddweud. Maent yn teimlo'u bod yn cael eu parchu gan staff, ac mae hyn yn bwysig iddynt. Mae hyn yn aml mewn cyferbyniad â'r hyn a brofon nhw yn eu hysgol brif ffrwd. O ganlyniad, mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwella yn ystod eu cyfnod yn eu UCD.

Siaradodd y rhan fwyaf o ddisgyblion am y ffaith fod mwy o amser yn cael ei dreulio ar les o gymharu â'u profiadau yn y brif ffrwd. Dywedodd un disgybl, '*pan rydyn ni yma, ein lles ni sy'n dod gyntaf – yn y brif ffrwd, y profion sy'n dod gyntaf*'. Caiff problemau iechyd meddwl eu deall yn dda gan staff, a gallant gynorthwyo disgyblion â strategaethau i reoli anawsterau. Dywed disgyblion nad yw staff mewn ysgolion prif ffrwd yn cael eu hyfforddi'n ddigon da i reoli a chefnogi iechyd meddwl disgyblion, a bod hyn yn ffurfio rhwystr rhag dysgu. Mae bron pob un ohonynt yn teimlo nad oes digon o staff mewn ysgolion prif ffrwd i siarad â nhw, a phan fyddant, yn aml, nid ydynt yn deall eu problemau.

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n hiraethu am eu hysgolion prif ffrwd, neu eisiau dychwelyd yno. Fodd bynnag, caiff disgyblion sy'n ailintegreiddio eu cynnwys yn y broses gynllunio, y maent yn ei weld yn rhywbeth cadarnhaol. At ei gilydd, o'n cyfarfodydd gyda disgyblion, maent yn hynod gadarnhaol am eu profiadau a'u cyfleoedd o ran y cwricwlwm yn eu UCDau.

# Sicrhau ansawdd arlwy'r cwricwlwm

## Rôl yr awdurdod lleol

Mae gan bob awdurdod lleol gyfrifoldeb i drefnu darpariaeth ar gyfer addysg plant o oedran ysgol gorfodol y mae angen iddynt gael addysg heblaw yn yr ysgol. At ei gilydd, mae llawer o awdurdodau lleol yn defnyddio'r diffiniad cyfreithiol o AHY yn gywir i lywio'u trefniadau a'u darpariaeth AHY. Mewn ychydig o awdurdodau, mae eu dehongliad o ddeddfwriaeth a chanllawiau AHY yn anghyson. Mae hyn yn destun pryder mawr mewn awdurdodau lleol lle mae addysg ddewisol yn y cartref a threfniadau a ariennir gan ysgolion prif ffrwd[1] sy'n defnyddio darparwyr allanol yn cael eu cynnwys, yr ystyrir nad yw'r naill na'r llall yn AHY. Mae hyn yn effeithio'n negyddol ar eu dealltwriaeth gyffredinol o faint o ddisgyblion sy'n derbyn AHY yn eu hardal leol. O ganlyniad i'w cynnwys mewn ffurflenni data i Lywodraeth Cymru, adroddwyd yn anghywir am ddisgyblion AHY trwy'r cyfrifiad AHY.

Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol banelau atgyfeirio ar waith i ystyried ceisiadau gan ysgolion am ddarpariaeth AHY. Mae enw, nifer, amlder a chyfansoddiad y panelau hyn yn amrywio ar draws rhanbarthau ac awdurdodau lleol.

Gall nifer y panelau gwneud penderfyniadau amrywio o un i dri mewn gwahanol awdurdodau. Pan mae mwy nag un panel ar waith, pennir hyn yn aml gan y math o ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer disgybl unigol. Er enghraifft, gallai ysgolion gyfeirio disgybl at y panel anghenion dysgu ychwanegol (ADY), a allai drosglwyddo'r atgyfeiriad i banel AHY. Os oes angen lleoliad y tu allan i'r sir ar ôl hyn, gall y Panel Anghenion Cymhleth ystyried hyn ymhellach. Er bod llai o bryderon ynglŷn â'r enw a roddir ar banelau, gall nifer fewnol y panelau sydd eu hangen i wneud penderfyniad am leoliad fod yn broses hir a llafurus. Mewn rhai achosion, mae hyn yn atal disgyblion rhag cael mynediad at leoliadau'n brydlon.

Yn yr un modd, gall amlder y panelau amrywio rhwng bob wythnos, bob pythefnos, bob mis neu bob hanner tymor. Mae trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer amlder cyfarfodydd panel yn tueddu i adlewyrchu'r galw am atgyfeiriadau.

Mae aelodaeth o banelau yr un mor amrywiol ar draws awdurdodau lleol. Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol, ceir ymagwedd amlasiantaethol, gan gynnwys aelodaeth o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS),

[1] Mae Fframwaith ar gyfer Gweithredu Addysg Heblaw yn yr Ysgol Llywodraeth Cymru (2019) yn nodi: 'Mae nifer o ysgolion prif ffrwd yn comisiynu gwasanaethau y maent yn cyfeirio atynt fel 'Darpariaeth Amgen'. Mae'n bwysig nodi na ddiffinnir y term 'Darpariaeth Amgen' mewn deddfwriaeth sylfaenol sy'n berthnasol i Gymru. Mae'r defnydd o'r term hwn ochr yn ochr ag AHY wedi achosi dryswch o fewn y sector ynglŷn â phwy sy'n cynnal cyfrifoldeb am y gwasanaethau a ddefnyddir. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y dryswch hwn yn cael ei ddwysáu gan y defnydd o'r term 'Darpariaeth Amgen' o fewn rhai canllawiau anstatudol'. Mae'r canllawiau'n nodi, er ei bod yn briodol i ysgolion gomisiynu darparwyr allanol fel rhan o gyflwyno'u trefniadau cwricwlwm, 'Nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i ysgolion gomisiynu darpariaeth allanol at ddibenion mynd i'r afael â phroblemau ymddygiadol, er enghraifft tiwtora gartref ar gyfer disgyblion sy'n gwrthod mynd i'r ysgol.'

gwasanaethau cymdeithasol a'r athro sydd â gofal am yr UCD. Pan mae'r trefniadau hyn yn gweithredu'n dda, mae lefel uchel o rannu gwybodaeth yn cryfhau'r broses gwneud penderfyniadau.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn 2016, 'Cynnwys a chynorthwyo disgyblion' yn datgan yn glir bod awdurdodau lleol yn parhau i fod yn atebol am ansawdd yr addysg ar gyfer AHY ran-amser neu amser llawn. Yn ein hadolygiad yn 2016, 'Addysg heblaw yn yr ysgol', dywedwn nad yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn monitro nac yn goruchwylio darpariaeth AHY yn ddigon trylwyr.

Nododd Adolygiad (2020) o Drefniadau Comisiynu Awdurdodau Lleol ar gyfer Darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol gan Lywodraeth Cymru fod mwyafrif yr awdurdodau lleol yn hyderus eu bod yn mabwysiadu meini prawf priodol ar gyfer asesu ansawdd darparwyr allanol, a chanfu'r adolygiad fod polisïau a phrosesau darparwyr yn cael eu hystyried yn helaeth o fewn yr asesiad hwn. Datgelodd y gwaith maes gydag awdurdodau lleol fod asesiad ansawdd mwy ffurfiol a thrylwyr o ddarparwyr yn cael ei gynnal gan y rhai sy'n mabwysiadu proses dendro gystadleuol i nodi darparwyr. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae llai o ffocws ar asesu ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr wrth gael mynediad at ddarparwyr allanol.

## Prosesau sicrhau ansawdd awdurdodau lleol

Fel rhan o'r adolygiad thematig hwn, canfuom fod gormod o amrywiad o hyd ar draws awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion o ran y prosesau sicrhau ansawdd ar gyfer arlwy'r cwricwlwm mewn darparwyr AHY. Nid yw prosesau sicrhau ansawdd ychydig o awdurdodau lleol wedi'u datblygu'n ddigonol. Ychydig iawn o awdurdodau lleol yn unig sydd wedi gwneud gwerthusiadau manwl o arlwy'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion ar draws eu darparwyr AHY, o gymharu â'u hysgolion prif ffrwd. O ganlyniad, ni all llawer o awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion lunio barnau cadarn yn seiliedig ar dystiolaeth ar ehangder ac ansawdd arlwy'r cwricwlwm ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n derbyn AHY.

Mae llawer o awdurdodau lleol yn disgwyl i ddarparwyr AHY gyflwyno Saesneg a mathemateg fel rhan o brif arlwy'r cwricwlwm. Fodd bynnag, y tu allan i'r ddau faes pwnc hyn, prin yw'r dystiolaeth o unrhyw ofynion cwricwlwm eraill gan awdurdodau lleol. Yn gyffredinol, dywed swyddogion awdurdodau lleol y dylai arlwy'r cwricwlwm fod yn hyblyg ac adlewyrchu anghenion disgyblion unigol. Yn yr awdurdodau lleol prin sy'n comisiynu darparwyr AHY allanol, ceir llai o dystiolaeth o ehangder a chydbwysedd arlwy'r cwricwlwm yn y darpariaethau hyn. O ganlyniad, nid oes gan awdurdodau lleol dystiolaeth gadarn i werthuso profiadau a chynnydd disgyblion yn ddigon da.

Mae llawer o awdurdodau lleol yn gadael prosesau sicrhau ansawdd UCDau yn nwylo pwyllgor rheoli'r UCD. Gan fod swyddogion awdurdodau lleol yn rhan o'r pwyllgor rheoli, maent yn ystyried bod hyn yn darparu sicrwydd ansawdd priodol. Fodd bynnag, mae trylwyredd pwyllgorau rheoli i werthuso a chefnogi gwelliant yn ehangder a chydbwysedd y cwricwlwm ar draws UCDau yn anghyson.

Pan mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda phartneriaid gwella ysgolion rhanbarthol, maent yn darparu sicrwydd ansawdd arlwy'r cwricwlwm mewn UCDau.

Yn yr achosion hyn, mae partneriaid gwella ysgolion yn ymgysylltu ag UCDau yn unig ac nid ydynt yn gyfrifol am unrhyw ddarparwyr AHY eraill sydd gan yr awdurdod lleol ar waith. At ei gilydd, mae gwaith y partneriaid gwella ysgolion, a systemau sicrhau ansawdd y cwricwlwm, yn amrywiol. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw arbenigedd y partner gwella ysgolion mewn cefnogi a sicrhau ansawdd arlwy cwricwlwm yr UCD yn ddigon penodol, ac mae adroddiadau'n rhy generig. Pan mae gan bartneriaid gwella ysgolion brofiad arweinyddiaeth mewn ysgolion arbennig neu UCDau, mae hyn yn cryfhau ansawdd y prosesau sicrhau ansawdd yn sylweddol.

**Awdurdod lleol Casnewydd**

Yn awdurdod lleol Casnewydd, mae cylch sicrhau ansawdd trylwyr ar waith. Mae hyn yn cynnwys y partner gwella ysgolion, a'r awdurdod lleol. Cynhelir trafodaethau proffesiynol gan ddefnyddio'r dull Tîm o Amgylch yr Ysgol, sy'n cynnwys arweinydd yr UCD. Mae meysydd i'w trafod yn cynnwys arlwy'r cwricwlwm yn yr UCD, sy'n cael ei deilwra i ddiwallu ystod oedrannau ac anghenion y disgyblion ar draws safleoedd yr UCD. Pan mae yna bryderon, gellir codi'r rhain yn y cyfarfodydd ffurfiol am ysgolion sy'n achosi pryder, sy'n cael eu cynnal yn rheolaidd gan yr awdurdod lleol.

Pan nad yw partneriaid gwella ysgolion yn cael eu cynnwys, mae swyddogion awdurdodau lleol yn uniongyrchol gyfrifol am sicrhau ansawdd arlwy'r cwricwlwm ym mhob un o'r darparwyr AHY. Yn yr achosion hyn, mae prosesau sicrhau ansawdd yn parhau i fod yn rhy ddibynnol ar lefel gwybodaeth a phrofiad swyddogion i werthuso a chefnogi gwelliant yn ansawdd arlwy'r cwricwlwm yn effeithiol. O ganlyniad, nid yw prosesau sicrhau ansawdd yn ddigon trylwyr mewn lleiafrif o awdurdodau lleol.

Mewn ychydig iawn o awdurdodau lleol, mae byrddau llywio AHY yn gweithredu ar lefel strategol i fonitro a goruchwylio penderfyniadau ar gyfer y gwasanaeth AHY. Mae'r trefniadau hyn yn cryfhau'r prosesau sicrhau ansawdd yn sylweddol ar draws darparwyr AHY, gan gynnwys goruchwylio priodoldeb arlwy'r cwricwlwm.

**Awdurdod lleol Abertawe**

Yn awdurdod lleol Abertawe, mae'r grŵp llywio AHY yn gyfrifol am fonitro'r holl ddarpariaeth AHY yn strategol. Bob hanner tymor, mae'r grŵp hwn yn monitro p'un a yw darparwyr AHY yn cyflwyno addysg briodol ar gyfer disgyblion, ac yn glynu at bolisi'r awdurdod lleol. Pan gaiff pryderon eu codi, gellir mynd i'r afael â'r rhain mewn modd amserol gyda swyddogion arweiniol a nodwyd ar gyfer y camau gweithredu.

Mae adroddiad Llywodraeth Cymru yn 2020, '[Adolygiad o Drefniadau Comisiynu Awdurdodau Lleol ar gyfer Darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol]' yn nodi bod gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol naill ai contractau neu gytundebau lefel gwasanaeth ar waith gyda darparwyr allanol. Fodd bynnag, mae'n cydnabod y gallai awdurdodau lleol fod yn fwy rhagweithiol wrth fonitro'r ddarpariaeth, yn enwedig o ran ansawdd y ddarpariaeth a'r graddau y mae'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion disgyblion.

Pan mae awdurdodau lleol yn comisiynu darparwyr allanol ar gyfer AHY, mae gan y rhan fwyaf ohonynt fframwaith comisiynu neu gytundeb lefel gwasanaeth ar waith, sy'n cynnwys fframwaith sicrhau ansawdd. Mae'r trefniadau cytundebol hyn yn darparu lefelau anghyson o her i sicrhau ansawdd arlwy'r cwricwlwm. Pan mae arfer yn effeithiol, mae'r her trwy'r fframwaith sicrhau ansawdd, gyda chyfarfodydd sicrhau ansawdd ac ymweliadau â safleoedd darparwyr i asesu addasrwydd yr amgylchedd a'r profiadau dysgu. Fodd bynnag, mewn ychydig o awdurdodau lleol, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran rhoi'r arfer hon ar waith.

**Awdurdod lleol Caerdydd**

Mae Caerdydd wedi sefydlu Grŵp Sicrhau Ansawdd AHY (EQA) i sicrhau cysondeb yn ansawdd yr holl ddarparwyr AHY sy'n cael eu caffael gan yr awdurdod lleol, fel bod anghenion yr holl ddisgyblion yn cael eu diwallu, a'u bod yn derbyn addysg o ansawdd da. Mae'r grŵp yn monitro ystod eang o arfer, fel presenoldeb disgyblion, arlwy'r cwricwlwm a chynnydd disgyblion.

Mae aelodaeth o'r grŵp yn cynnwys ystod eang o aelodau, fel swyddog arweiniol AHY yr awdurdod lleol, rheolwr addysgu cymunedol, cydlynydd plant sy'n derbyn gofal mewn addysg, a swyddog cynhwysiant. Caiff swyddogion eraill eu cyfethol yn ôl yr angen. Mae'r grŵp EQA yn cyfarfod bob mis ac yn nodi camau gweithredu ar gyfer aelodau'r grŵp i'w cwblhau erbyn y cyfarfod nesaf.

Mae Cadeirydd y grŵp yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd AHY a swyddogion arweiniol yr awdurdod lleol ar gyfer Cyflawni a Chynhwysiant. Mae'r grŵp EQA yn darparu proses drylwyr o ran monitro a sicrhau ansawdd lle eir i'r afael â phryderon yn gyflym.

## Monitro mynediad at addysg amser llawn

Disgwyliad Llywodraeth Cymru yw y dylai pob disgybl dderbyn addysg amser llawn, ni waeth ble mae'n cael ei addysgu. Ni ddiffinnir addysg amser llawn yn y gyfraith. Er bod bron pob awdurdod lleol yn disgwyl i bob disgybl AHY gael mynediad at gwricwlwm amser llawn, efallai nad yw hyn bob amser yn briodol. Fodd bynnag, ni ddylai hyn fod yn benderfyniad unochrog gan yr awdurdod lleol na'r darparwr, ond trwy gytuno â'r rhieni, y gofalwyr a'r disgybl.

Mae llawer o awdurdodau lleol yn cydnabod bod nifer o ddisgyblion yn cael arlwy cwricwlwm rhan-amser ar draws eu darparwyr AHY, a bod y niferoedd hyn yn amrywio. Mae'r rhesymau am y trefniadau rhan-amser hyn yn cynnwys pontio i ddarparwyr AHY yn raddol, disgyblion y mae angen arlwy cwricwlwm rhan-amser arnynt oherwydd anghenion iechyd meddwl neu anghenion meddygol, neu i ymateb i anghenion ymddygiadol disgyblion.

I ddisgyblion y mae awdurdodau lleol yn trefnu tiwtora ar eu cyfer, sy'n cynnwys tiwtora gartref a thiwtora yn y gymuned, mae llawer o awdurdodau'n darparu uchafswm o 10 awr yr wythnos. Nid yw hyn bob amser yn seiliedig ar anghenion y disgybl unigol, ond mae'n aml yn gysylltiedig â'r diffyg capasiti i ddarparu mwy na hyn. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni ddarperir unrhyw gymorth addysgol arall am weddill yr amser ar gyfer y disgyblion hyn. Mewn llawer o awdurdodau lleol, ni chaiff y ddarpariaeth hon ei monitro'n ddigon da, sy'n golygu bod disgyblion yn aros mewn addysg ran-amser am gyfnodau amser estynedig, sy'n effeithio'n sylweddol ar y

tebygolrwydd y byddant yn dychwelyd i addysg brif ffrwd. Mae ychydig iawn o awdurdodau lleol yn darparu arlwy tiwtora amser llawn ar gyfer disgyblion trwy gyfuniad o addysgu uniongyrchol, dysgu digidol a mynediad at ystod o weithgareddau lles buddiol. Yn yr awdurdodau lleol hyn, mae niferoedd y disgyblion sy'n dychwelyd i addysg brif ffrwd amser llawn yn gyson uwch na'r rhai mewn awdurdodau lleol sy'n darparu addysg ran-amser.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau yn monitro mynediad disgyblion at gwricwlwm amser llawn ar draws yr holl ddarparwyr AHY trwy bresenoldeb disgyblion. Mae amlder ac effeithiolrwydd monitro presenoldeb yn amrywio. Mae llawer o awdurdodau lleol yn defnyddio eu Gwasanaeth Lles Addysg neu'u swyddogion awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldeb am AHY i fonitro'r ffigurau presenoldeb. Mae amlder y gweithgareddau monitro hyn yn amrywio o fonitro wythnosol i fonitro tymhorol. Yn ychwanegol, mae lefel yr her i ddarparwyr AHY gan awdurdodau lleol i fynd i'r afael â disgyblion nad ydynt yn mynychu ac yn cael mynediad at arlwy cwricwlwm amser llawn yn gyson yn rhy amrywiol.

Pan mae gan awdurdodau bartneriaid gwella ysgolion o gonsortia rhanbarthol, gallai monitro mynediad at gwricwlwm amser llawn mewn UCDau ffurfio rhan o'u cyfrifoldebau. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon ar waith yn gyson ledled Cymru. Nid yw'r prosesau ar gyfer monitro trefniadau rhan-amser ar draws llawer o awdurdodau lleol yn ddigon trylwyr, ac mae angen rhoi sylw iddynt ar frys.

### Ymglymiad aelodau etholedig awdurdodau lleol

Yn ein hadroddiad yn 2016 'Addysg heblaw yn yr ysgol', nodom lawer o ddiffygion yn ymwneud â rolau a chyfrifoldebau aelodau etholedig awdurdodau lleol. Ers hyn, mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ystod well o fecanweithiau adrodd ar waith i roi gwybodaeth i aelodau etholedig am eu gwasanaeth AHY. Mae hyn yn dechrau rhoi tystiolaeth i aelodau i lunio barnau mwy trylwyr ar ansawdd y gwasanaeth AHY a gwerth am arian.

Yn yr arfer fwyaf effeithiol, mae adroddiadau rheolaidd, cyflwyniadau, ymweliadau ag UCDau a chyfarfodydd rheolaidd â swyddogion ymhlith y gweithgareddau y mae aelodau etholedig yn cymryd rhan ynddynt. Mae'r rhain yn cynyddu ymglymiad aelodau etholedig a'u dealltwriaeth o'u gwasanaeth AHY, ac yn rhoi gwybodaeth allweddol i aelodau mewn modd amserol hefyd. Mewn ychydig o awdurdodau lleol, mae aelodau etholedig yn aelodau o bwyllgor rheoli'r UCD. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth ddyfnach i aelodau o anghenion y disgyblion a gwaith yr UCD.

**Awdurdod lleol Gwynedd**

Yn awdurdod lleol Gwynedd, mae'r aelod cabinet ar gyfer gwasanaethau addysg yn derbyn gwybodaeth bob mis, gan gynnwys data ar gyfer darpariaeth AHY yn yr awdurdod. Caiff y wybodaeth hon ei rhannu â holl aelodau'r cabinet. Mae'r swyddog cynhwysiant yn cyflwyno i'r pwyllgor craffu ar addysg yn rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau, a'u hysbysu, am yr holl faterion AHY. Mae'r bwrdd ansawdd sirol a'r bwrdd ansawdd rhanbarthol yn gofyn am ddiweddariadau rheolaidd ar niferoedd, presenoldeb, gwaharddiadau a chymwysterau o ran AHY. Mae'r wybodaeth yn galluogi aelodau etholedig i herio a gwerthuso'n ofalus pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth AHY ar draws yr awdurdod lleol.

## Pontio rhwng darparwyr AHY ac ysgolion prif ffrwd, addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth

### Dychwelyd i ysgol brif ffrwd

Dywed awdurdodau lleol fod niferoedd y disgyblion sy'n dychwelyd yn llwyddiannus i ysgol brif ffrwd yn parhau i fod yn isel iawn dros y pedair blynedd ddiwethaf. Un rheswm posibl am hyn yw bod disgyblion yn cael eu hatgyfeirio ar gyfer AHY yn rhy hwyr. Erbyn yr adeg hon, mae eu hymddygiadau a'u hymddieithrio o addysg wedi eu hen sefydlu. Mae hyn yn ymestyn hyd y lleoliad a gallai leihau'r cyfleoedd i ddychwelyd i addysg brif ffrwd amser llawn yn llwyddiannus yn sylweddol. O ganlyniad, mae pryder cynyddol yn y sector fod UCDau yn gweithredu'n fwy fel ysgolion arbennig, yn hytrach na darpariaeth tymor byr i gynorthwyo disgyblion. Mewn llawer o achosion, mae'n aneglur sut mae awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Pan mae arfer yn effeithiol, mae cynlluniau clir ar waith ar gyfer hyd lleoliad disgybl gyda darparwyr AHY. Caiff rolau a chyfrifoldebau'r ysgol brif ffrwd, a threfniadau pontio ar gyfer dychwelyd i ysgol brif ffrwd amser llawn neu addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth, eu nodi'n glir pan fyddant yn dechrau yn y darparwr. Caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd gan y darparwr a'r awdurdod lleol, a'u haddasu i gefnogi anghenion unigol pob disgybl. Mae'r broses hon yn llai trylwyr lle mae awdurdodau lleol yn comisiynu darparwyr AHY allanol, o gymharu â lleoliadau UCD.

**UCD Powys**

Yn UCD Powys, caiff pob disgybl leoliad 12 wythnos i ddechrau. Yn ystod y cyfnod hwn, mae staff yn yr UCD yn cwblhau asesiadau gwaelodlin i nodi meysydd dysgu penodol y mae angen mynd i'r afael â nhw, ac yn nodi ymyriadau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hyn. Yn ogystal â'r asesiadau hyn, nodir unrhyw anghenion corfforol neu anghenion dysgu ychwanegol gwaelodol, a'r cymorth sydd ei angen i fynd i'r afael â'r anghenion hyn.

Mae'r UCD yn cynnal cyswllt rheolaidd â'r ysgol brif ffrwd trwy gydol y cyfnod o 12 wythnos, a'r nod yw sicrhau bod disgybl yn dychwelyd i'r ysgol brif ffrwd amser llawn. Caiff asesiadau gwaelodlin eu hadolygu ar ôl 10 wythnos o ymyrraeth i asesu cynnydd a pharodrwydd disgyblion i ddechrau eu cyfnod pontio yn ôl i addysg brif ffrwd. Os penderfynir bod angen cyfnod hirach yn yr UCD ar y disgybl, yna cytunir ar hyn ym mhanel yr awdurdod lleol, a darperir bloc 12 wythnos ychwanegol o gymorth ac ymyrraeth yn yr UCD.

Pan fydd disgybl yn barod i ddychwelyd i ysgol brif ffrwd, caiff hyn ei gynllunio'n ofalus a'i reoli ar y cyd rhwng yr ysgol a'r UCD. Caiff disgyblion eu cynnwys yn llawn mewn cynllunio eu dychweliad. Mae hyn yn eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses a lleisio'u gofidiau neu'u pryderon i helpu staff i oresgyn unrhyw rwystrau canfyddedig. Fel rhan o'r trefniadau pontio, mae aelod cyfarwydd o staff yr UCD yn cefnogi cyfnod pontio'r disgybl. Mae'n mynychu'r ysgol brif ffrwd yn y camau cychwynnol i helpu'r disgybl i ymgynefino ac yn darparu cymorth i staff yr ysgol trwy rannu strategaethau ac ymyriadau sy'n cynorthwyo'r disgybl.

Pan fydd prosesau panelau awdurdodau lleol yn nodi hyd disgwyliedig lleoliad disgybl, mae'r rhain yn amrywio'n sylweddol. Maent yn amrywio o floc o ddarpariaeth am chwe wythnos hyd at 12 mis. Yn nodweddiadol, mae'r trefniadau hyn ar gyfer lleoliadau ar gyfer disgyblion oedran cynradd a disgyblion oedran uwchradd iau. Ers y pandemig, caiff y lleoliadau darpariaeth bloc hyn eu hymestyn yn gynyddol o ganlyniad i gymhlethdod anghenion disgyblion.

Er bod ailintegreiddio i ysgolion prif ffrwd ar gael ar gyfer disgyblion oedran uwchradd hŷn, mae hyn yn llai tebygol am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys yr heriau a gyflwynir i weddu anghenion disgyblion i opsiynau'r cwricwlwm sydd ar gael mewn ysgol brif ffrwd. I'r disgyblion hŷn hyn, mae bron pob un o'r awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar eu llwybrau i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Er nad oes un model sy'n cefnogi dychwelyd yn effeithiol i addysg brif ffrwd, mae yna gamau allweddol sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd disgybl yn dychwelyd yno yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion yn cadw cysylltiadau agos â'u hysgolion prif ffrwd, disgyblion yn parhau i ddychwelyd i'w hysgol brif ffrwd yn rheolaidd bob wythnos, a chyswllt rheolaidd rhwng yr ysgol brif ffrwd a'r darparwr AHY, i gyd yn cael effaith gadarnhaol. Nid yw arferion o'r fath wedi'u gwreiddio'n gadarn ar draws llawer o awdurdodau lleol.

I ddisgyblion iau mewn UCDau, mae gwahanol fodelau ar waith ar gyfer eu hailintegreiddio i ysgolion prif ffrwd. Pan fydd arfer yn effeithiol, mae cwricwlwm teilwredig yr UCD yn cefnogi bylchau penodol yn nysgu disgyblion. Rhennir manylion am gynllunio'r cwricwlwm a chwmpas y cwricwlwm rhwng yr UCD a'r ysgol brif ffrwd, sy'n cefnogi parhad mewn dysgu. Mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd rheolaidd i dreulio amser yn eu hysgolion prif ffrwd i gynnal cysylltiadau â'u cyfoedion ac elwa ar ystod ehangach o brofiadau'r cwricwlwm. Mae hyn yn fwyaf effeithiol lle caiff disgyblion gymorth gan staff UCD. Yn yr arfer fwyaf effeithiol, ceir cyfleoedd i staff prif ffrwd arsylwi lleoliad y disgyblion yn yr UCD. Mae hyn yn caniatáu cyfleoedd i staff prif ffrwd ailadrodd strategaethau llwyddiannus i reoli ymddygiad a dysgu disgyblion a sefydlwyd yn yr UCD.

Mae arweinwyr UCDau yn nodi nad yw'r cwricwlwm ynddo'i hun yn rhwystr rhag ailintegreiddio disgyblion i ysgolion prif ffrwd yn llwyddiannus. Mae lefel gynyddol anghenion disgyblion yn broblem fwy, yn enwedig anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl (CEIM), anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY), yn ogystal ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) gwaelodol eraill. Mae effaith hyn yn golygu bod gormod o ddisgyblion yn mynychu darparwyr AHY, yn enwedig UCDau, yn rhy hir. Mae hyn yn atal llif effeithiol o ddisgyblion a fyddai'n elwa ar ymyrraeth yn y tymor byr er mwyn iddynt allu parhau mewn ysgol brif ffrwd yn y tymor hwy.

**Ysgol Plas Cefndy**

Mae Ysgol Plas Cefndy, Sir Ddinbych, yn cynnig cymorth ar gyfer disgyblion oedran cynradd, yn bennaf, i ddychwelyd i ysgol brif ffrwd. Mae rôl annatod tîm allymestyn yr UCD mewn ffurfio cysylltiadau ag ysgolion prif ffrwd yn gryfder allweddol. Yn ychwanegol, mae dealltwriaeth staff o rwystrau disgyblion rhag dysgu yn sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei deilwra i ddiwallu anghenion unigol disgyblion a goresgyn y rhwystrau hyn. O ganlyniad, dros gyfnod, mae canran

uchel o ddisgyblion o'r UCD yn dychwelyd i'w lleoliadau mewn ysgolion prif ffrwd, ac yn eu cynnal. Mae hyn yn golygu bod mwy o ddisgyblion yn elwa ar yr UCD a'i chwricwlwm teilwredig, gan alluogi disgyblion i ddatblygu'r medrau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i ddychwelyd i'r ysgol yn llwyddiannus.

Mewn ychydig o UCDau, mae awdurdodau lleol wedi cyflwyno darpariaeth dosbarth bach ychwanegol yn fwy diweddar i dargedu lleoliadau tymor byrrach ar gyfer disgyblion oedran uwchradd iau, yn benodol. Mae hyn ochr yn ochr â darpariaeth tymor hwy ar gyfer disgyblion. Mae'r ddarpariaeth tymor byrrach yn targedu disgyblion sy'n dangos potensial cynyddol ar gyfer dychwelyd i addysg brif ffrwd yn amserol, gyda chymorth dwysach yn yr UCD. Pan mae'r trefniadau hyn ar waith, dywed awdurdodau lleol eu bod yn dechrau gweld nifer gynyddol, ond bach, o ddisgyblion yn dychwelyd i ysgol brif ffrwd gyda chymorth. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â rôl fwriadedig Llywodraeth Cymru ar gyfer darpariaeth AHY. Dywed llawer o awdurdodau lleol eu bod yn gweld niferoedd cynyddol o atgyfeiriadau ar gyfer disgyblion oedran cynradd ers y pandemig.

**Awdurdod lleol Casnewydd**

Yn awdurdod lleol Casnewydd, mae gan yr UCD ddau ddosbarth sy'n targedu ymyrraeth tymor byr: un ar gyfer disgyblion oedran cynradd hŷn, ac un ar gyfer disgyblion oedran uwchradd iau. Disgwylir y bydd y disgyblion hyn yn dychwelyd i ysgol brif ffrwd o fewn chwech i wyth wythnos. Caiff cynnydd disgyblion ei fonitro bob wythnos gyda diweddariadau i'r panel symudiadau a reolir gan yr awdurdod lleol. Mae'r UCD yn cynnal cysylltiadau agos â'r ysgolion prif ffrwd trwy gyfarfodydd ac ymweliadau rheolaidd. Mae disgyblion yn parhau i fod wedi'u cofrestru yn y ddau ddarparwr ac yn dychwelyd i'r ysgol o leiaf unwaith yr wythnos. Mae hyn yn cynyddu dros gyfnod fel rhan o'r broses. Darperir cymorth allymestyn gan staff yr UCD ar gyfer y disgyblion hynny sy'n dychwelyd i ysgol brif ffrwd. Mae hyn yn galluogi staff yr UCD i roi cymorth ychwanegol i ddisgyblion a'u cael i ymgyfarwyddo ag arferion yr ysgol brif ffrwd yn dda. Mae staff ysgol yn elwa ar y strategaethau a ddefnyddir gan staff yr UCD i gynorthwyo disgyblion yn effeithiol yn y lleoliad ysgol. O ganlyniad i'r dull hwn, mae llawer o'r disgyblion cynradd yn dychwelyd i'w hysgol brif ffrwd amser llawn. Dywed arweinwyr fod niferoedd y disgyblion oedran uwchradd iau sy'n dychwelyd i'w lleoliad mewn ysgol brif ffrwd yn llwyddiannus, ac yn ei gynnal, yn cynyddu'n raddol.

Pan mae disgyblion cynradd yn mynychu darparwyr AHY, mae heriau ychwanegol wrth iddynt bontio i addysg brif ffrwd uwchradd. Mae'r ffaith fod angen cymorth ar ddisgyblion i gael mynediad at y cwricwlwm uwchradd ehangach yn her allweddol. O ganlyniad, mae angen cynllunio a monitro trefniadau pontio yn dda i gefnogi lles, hyder a medrau cymdeithasol disgyblion i wneud y pontio yn llwyddiannus. Ers y pandemig, dywedodd yr awdurdod lleol fod niferoedd y disgyblion sy'n trosglwyddo o ddarpariaeth AHY gynradd i ysgol uwchradd brif ffrwd wedi gostwng yn nodedig. Mae hyn yn un o effeithiau tebygol y tarfu yn y mynediad at addysg yn ystod y pandemig.

Mae dychwelyd i addysg brif ffrwd ar gyfer disgyblion sy'n cael mynediad at wasanaethau tiwtora awdurdodau lleol yn gallu bod yn fwy cymhleth. I ddisgyblion

sy'n defnyddio'r gwasanaeth o ganlyniad i gyflyrau meddygol tymor byr, ceir graddfa amser glir fel arfer ar gyfer cymorth a dychwelyd i ysgol brif ffrwd. I ddisgyblion sydd ag anghenion iechyd meddwl gwaelodol ac sydd efallai'n derbyn gwasanaethau arbenigol, fel CAMHS neu diwtora yn yr ysbyty, mae dychwelyd i addysg amser llawn yn cynnwys cydlynu amlasiantaethol. Yn aml, mae dychwelyd yn ddibynnol ar gyngor ac arweiniad ynghylch iechyd. Mae awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau tiwtora amser llawn yn y gymuned yn gynyddol i gefnogi gwydnwch ac iechyd a lles emosiynol disgyblion. Mae hyn yn annog disgyblion i adael eu cartrefi i gael mynediad at ddysgu, gan ddisgwyl dychwelyd i ysgolion prif ffrwd.

Pan mae disgyblion yn cael eu tiwtora gartref gan yr awdurdod lleol ac wedi ymddieithrio neu'n gwrthod mynd i'r ysgol, mae achosion yn aml yn gymhleth a hirfaith. Yn yr amgylchiadau hyn, mae awdurdodau lleol yn adolygu disgyblion fesul achos, a gallai hyn gynnwys llawer mwy o weithio amlasiantaethol i ddatblygu ymagwedd gydlynus at ailgynnwys disgyblion mewn addysg. Mae nifer uwch o'r disgyblion hyn nad ydynt yn dychwelyd i addysg amser llawn mewn darparwyr prif ffrwd na darparwyr AHY.

Mewn lleiafrif o awdurdodau lleol, nid oes unrhyw brosesau clir ar waith i ailymweld â lleoliadau disgyblion neu gynllunio ar gyfer ailintegreiddio disgyblion i addysg brif ffrwd. Mae hyn yn faes pryder sydd angen ei wella.

### Pontio i addysg bellach, hyfforddiant, neu gyflogaeth

Yn gyffredinol, er bod cyfleoedd i ddychwelyd i ysgol brif ffrwd ar gyfer disgyblion oedran uwchradd hŷn yn parhau i fod yn opsiwn, mae'n llai tebygol mai dyma'r llwybr ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion. Bron ym mhob awdurdod lleol, mae'r cwricwlwm cytunedig ar gyfer y disgyblion hyn yn canolbwyntio ar eu cynorthwyo i symud tuag at addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae hyn yn fwyaf effeithiol pan mae wedi'i deilwra i ddiwallu eu hanghenion, eu diddordebau a'u dyheadau unigol. Mewn llawer o UCDau, mae ehangder a chydbwysedd y cwricwlwm yn addas i ddiwallu'r anghenion hyn, ac mae amrywiaeth o lwybrau cymhwyster hyblyg a chydnabyddedig ar waith.

Mae gweithwyr arweiniol mewn UCDau a Gyrfa Cymru yn cefnogi cyfnod pontio disgyblion i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth, yn dda. Er enghraifft, maent yn cynorthwyo disgyblion i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant galwedigaethol, fel hyfforddiant barista a thechnegydd ewinedd. Mae hyn yn darparu profiadau uniongyrchol i ddisgyblion, sy'n eu cymell i ennill cymwysterau perthnasol, a gwella'u presenoldeb, mewn rhai achosion.

Mae'r ystod eang o brofiadau, gan gynnwys ffeiriau gyrfaoedd, rhaglenni cyn-ymgysylltu â cholegau, a gweithio mewn partneriaeth â chwmnïau galwedigaethol, yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael cymorth da ar draws llawer o UCDau. Mae gweithgareddau cymunedol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth a'u canfyddiadau o'r hyn y gallant ei wneud i gyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned leol. Mae profiadau gwaith allanol, i ddatblygu medrau ehangach ac annibyniaeth disgyblion, yn dechrau cael eu hailsefydlu ar ôl y pandemig. Mae'r profiadau hyn yn eithriadol o werthfawr ar gyfer disgyblion. At ei gilydd, mewn llawer

o awdurdodau lleol, mae'r ffigurau a adroddwyd ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 sy'n gadael UCDau sy'n dod yn bobl ifanc NACH, yn gyson isel.

**UCD Tŷ Gwyn, Rhondda Cynon Taf**

Mae arweinwyr yn yr UCD yn rhoi ffocws cryf ar ddatblygiad gyrfaoedd ar gyfer disgyblion oedran uwchradd hŷn. Mae gan yr UCD berthynas weithio gref â Gyrfa Cymru. Mae'r cynghorydd gyrfaoedd yn treulio amser yn datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol â disgyblion. Ar y cyd â staff yr UCD, mae'r cynghorydd gyrfaoedd yn gweithio gyda disgyblion yn unigol i'w helpu i geisio cyflawni eu nod terfynol pan fyddant yn gadael yr UCD.

Mae'r UCD yn cynnig ystod eang o ymweliadau allanol i roi profiadau i ddisgyblion i ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau â chwmnïau a cholegau lleol. Yn ychwanegol, mae'r UCD yn trefnu cyfleoedd ar gyfer ymweliadau ar y safle gan gwmnïau a darparwyr sy'n cynnig prentisiaethau. Mae'r holl gyfleoedd hyn yn codi dyheadau disgyblion, yn cynorthwyo disgyblion i ddewis eu llwybrau cymhwyster, ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer eu camau nesaf.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynd ymlaen i goleg pan fyddant yn gadael yr UCD. Mae'r cynghorydd gyrfaoedd yn parhau i'w cefnogi yn y lleoliadau hyn ar ôl datblygu cysylltiadau gweithio cadarnhaol â nhw eisoes yn yr UCD. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion yn effeithiol i gynnal eu lleoliadau. O ganlyniad, mae ychydig iawn o ddisgyblion dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi dod yn bobl ifanc NACH pan fyddant yn gadael yr UCD.

# Atodiad 1

## Gofynion y cwricwlwm ar gyfer darparwyr AHY

Mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu gofynion gorfodol clir ar gyfer Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (legislation.gov.uk) gan gynnwys darpariaeth AHY. Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol, y pwyllgor rheoli a'r athro sydd â gofal gynllunio cwricwlwm ar gyfer yr UCD sy'n bodloni set benodedig o ofynion.

Dyma'r gofynion:

- Sicrhau darpariaeth cwricwlwm sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben; sy'n eang a chytbwys, yn addas ar gyfer oedrannau, galluoedd a dyheadau'r dysgwyr, ac yn cynnig dilyniant priodol
- Sicrhau, ar gyfer y dysgwr unigol, bod y dysgu'n datblygu'r medrau trawsgwricwlaidd, yn cwmpasu addysg cydberthynas a rhywioldeb briodol yn ddatblygiadol, ac yn cwmpasu'r Maes Iechyd a Lles
- Sicrhau bod darpariaeth y cwricwlwm, os yw'n rhesymol bosibl a phriodol gwneud hynny, yn cynnwys addysgu a dysgu mewn meysydd eraill ac yn yr elfennau gorfodol eraill (Cymraeg, Saesneg a chrefydd, gwerthoedd a moeseg)
- Rhaid i'r athro sydd â gofal ystyried anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr

Ar gyfer AHY a ddarperir heblaw UCD, rhaid i'r awdurdod lleol:

- Sicrhau darpariaeth cwricwlwm sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben; sy'n eang a chytbwys, yn addas ar gyfer oedrannau, galluoedd a dyheadau'r dysgwyr, ac yn cynnig dilyniant priodol
- Sicrhau, ar gyfer y dysgwr unigol, bod y dysgu'n datblygu'r medrau trawsgwricwlaidd, yn cwmpasu addysg cydberthynas a rhywioldeb briodol yn ddatblygiadol, ac yn cwmpasu'r Maes Iechyd a Lles
- Sicrhau bod darpariaeth y cwricwlwm, os yw'n rhesymol bosibl a phriodol gwneud hynny, yn cynnwys addysgu a dysgu mewn meysydd eraill ac yn yr elfennau gorfodol eraill (Cymraeg, Saesneg a chrefydd, gwerthoedd a moeseg)

## Dulliau a sail y dystiolaeth

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth a gasglwyd yn ystod hanner olaf tymor yr hydref 2022. Anfonom arolwg cychwynnol at yr holl awdurdodau lleol i roi trosolwg o ddarpariaeth ac arfer bresennol o ran AHY. Cawsom 17 o ymatebion gan awdurdodau i'r arolwg hwn. Yn ogystal â'r arolwg, cynigiom gyfuniad o gyfarfodydd wyneb yn wyneb neu gyfarfodydd rhithwir gyda swyddogion arweiniol ar gyfer AHY ym mhob awdurdod lleol. Gwnaethom gyfarfod â chyfanswm o un deg naw. O ganlyniad, derbyniom wybodaeth gan bob awdurdod lleol ar wahân i un. Gwnaethom gyfarfod â chynrychiolwyr ar gyfer y gwasanaethau gwella ysgolion ar draws yr holl gonsortia rhanbarthol hefyd, i drafod eu hymglymiad ag AHY.

Ymwelom ag wyth o unedau cyfeirio disgyblion (UCDau). Yn ystod yr ymweliadau hyn, gwnaethom gyfarfod ag arweinydd yr UCD, arweinwyr y cwricwlwm a disgyblion. Gwnaethom gyfarfod â thros 40 o ddisgyblion ar draws yr wyth UCD. Edrychom ar amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys cynllunio'r cwricwlwm a llwybrau cymhwyster yn ystod yr ymweliadau. Roedd y sampl yn cynnwys UCDau ar un safle ac UCDau portffolio, ac yn cwmpasu disgyblion rhwng pump ac un deg chwech oed. Roedd y sampl hefyd yn cynnwys UCDau a oedd wedi cytuno i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2022. Ni wnaethom gynnwys ysgolion arbennig annibynnol na threfniadau a wnaed gan ysgolion prif ffrwd sy'n cael mynediad at ddarparwyr allanol fel rhan o'r cwmpas ar gyfer yr adolygiad thematig. Ni wnaethom ymweld â darparwyr AHY allanol. Cwblhawyd y gwaith maes erbyn dechrau tymor y gwanwyn 2023.

Yn ychwanegol, defnyddiom dystiolaeth o naw arolygiad UCD a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr 2019 a mis Rhagfyr 2022.

Hoffai Estyn ddiolch i ddisgyblion, swyddogion awdurdodau lleol, staff consortia rhanbarthol ac arweinwyr UCDau a gefnogodd yr adolygiad thematig.

| UCD | Sector | Awdurdod lleol |
|---|---|---|
| UCD Portffolio Darpariaeth Amgen Y Bont | Pob oed | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Ysgol ac Uned Cymorth i Fyfyrwyr Bryn Y Deryn | Uwchradd | Caerdydd |
| Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion Sir Fynwy | Diwedd y sector cynradd a'r sector uwchradd | Sir Fynwy |
| Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion Sir Benfro | Pob oed | Sir Benfro |
| UCD Portffolio Powys | Pob oed | Powys |
| UCD Tŷ Glyn | Uwchradd | Torfaen |
| Canolfan Addysg Tŷ Gwyn | Uwchradd | Rhondda Cynon Taf |
| Ysgol Plas Cefndy | Pob oed | Sir Ddinbych |

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **AAA** | Anghenion addysgol arbennig |
| **AB** | Addysg bellach |
| **ACEY** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol |
| **ADY** | Anghenion dysgu ychwanegol |
| **ADdC** | Addysg Ddewisol yn y Cartref |
| **AHY** | Addysg heblaw yn yr ysgol |
| **CAMHS** | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |
| **CDU** | Cynllun datblygu unigol |
| **CEIM** | Cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl |
| **FfCD** | Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol |
| **RhCB** | Rhaglen cymorth bugeiliol |
| **TAY** | Tîm o amgylch yr ysgol |
| **TGCh** | Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu |
| **UCD** | Uned cyfeirio disgyblion |

## Cyfeiriadau

Comisiynydd Plant Cymru (2016) *Yr Hawl i Ddysgu – cefnogi plant a phobl ifanc mewn unedau cyfeirio disgyblion i gyrraedd eu potensial.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.complantcymru.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/Right_to_learn_cym-F.pdf [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Estyn (2007) *Arfer awdurdodau addysg lleol wrth fonitro lleoliad disgyblion sy'n cael eu haddysgu y tu allan i leoliad yr ysgol a'r rheiny sydd ar goll o addysg.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/node/14500 [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Estyn (2012) *Arolwg o'r trefniadau ar gyfer rheoli lles ac ymddygiad disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/arolwg-or-trefniadau-ar-gyfer-rheoli-lles-ac-ymddygiad-disgyblion-mewn-unedau?_ga=2.193203177.570346018.1686913739-1268603649.168691 [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Estyn (2013a) *Cefnogi disgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn effeithiol.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/cefnogi-disgyblion-ag-anghenion-cymdeithasol-emosiynol-ac-ymddygiadol-yn?_ga=2.29443579.570346018.1686913739-1268603649.1686913739 [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Estyn (2013b) *Helpu pobl ifanc i reoli emosiynau a pherthnasoedd.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/helpu-pobl-ifanc-i-reoli-emosiynau-pherthnasoedd?_ga=2.197389291.570346018.1686913739-1268603649.1686913739 [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Estyn (2015) *Addysg heblaw yn yr ysgol: arolwg arfer dda.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Addysg_Heblaw_yn_yr_Ysgol_arolwg_arfer_dda_-_Mehefin_2015.pdf [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Estyn (2016) *Addysg heblaw yn yr ysgol.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/EOTAS%2520cy.pdf [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Estyn (2018a) *Ansawdd addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc sy'n gysylltiedig â thimau troseddau ieuenctid.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-08/The%2520quality%2520of%2520education%2520and%2520training%2520for%2520young%2520people%2520engaged%2520with%2520youth%2520offending%2520teams%2520-%2520cy_0.pdf [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Estyn (2018b) *Symudiadau rheoledig: Defnydd effeithiol o symudiadau rheoledig gan awdurdodau lleol ac ysgolion.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Managed%2520moves%2520-%2520how%2520used%2520by%2520LAs%2520and%2520schools%2520report%2520cy.pdf [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Estyn (2019a) *Arferion cofrestru disgyblion.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-08/Pupil%2520registration%2520practices%2520cy.pdf [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Estyn (2019b) *Ymchwiliad i Addysg Heblaw yn yr Ysgol: Ymateb gan Estyn.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://business.senedd.wales/documents/s95556/EOTAS%2003%20Estyn.pdf [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Estyn (2022) *Y Cwricwlwm i Gymru – Sut mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion?* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2022-03/Y%20Cwricwlwm%20i%20Gymru%20%E2%80%93%20sut%20mae%20consortia%20rhanbarthol%20ac%20awdurdodau%20lleol%20yn%20cynorthwyo%20ysgolion.pdf [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Llywodraeth Cymru (2011a) *Defnydd effeithiol o symudiadau wedi'u rheoli: Cychwyn newydd i blant a phobl ifanc.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/defnydd-effeithiol-o-symudiadau-wediu-rheoli-cychwyn-newydd-i-blant-a-phobl-ifanc-yn-yr-ysgol.pdf [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Llywodraeth Cymru (2011b) *Addysg heblaw yn yr ysgol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-adolygiad-chynllun-gweithredu [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Llywodraeth Cymru (2016) *Cynnwys a chynorthwyo disgyblion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-05/canllawiau-cynnwys-a-chynorthwyo-disgyblion_0.pdf [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Llywodraeth Cymru (2017a) *Dadansoddiad o anghenion hyfforddi a datblygu pwyllgorau rheoli uned cyfeirio disgyblion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dadansoddiad-o-anghenion-hyfforddi-a-datblygu-pwyllgorau-rheoli-uned-cyfeirio-disgyblion.pdf [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Llywodraeth Cymru (2017b) *Addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS): fframwaith gweithredu asesiad o'r effaith ar hawliau plant.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-eotas-fframwaith-gweithredu-asesiad-or-effaith-ar-hawliau-plant [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Llywodraeth Cymru (2018a) *Crynodeb o'r adolygiad o'r atgyfeiriadau dysgwyr i addysg heblaw yn yr ysgol gan awdurdodau lleol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/crynodeb-or-adolygiad-or-atgyfeiriadau-dysgwyr-i-addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-gan-awdurdodau-lleol [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Llywodraeth Cymru (2018b) *Dadansoddiad o Ymarferion Cofrestru Disgyblion awdurdod lleol ar gyfer dysgwyr sy'n defnyddio darpariaeth UCD ac AHY.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/dadansoddiad-o-ymarferion-cofrestru-disgyblion-awdurdod-lleol-ar-gyfer-dysgwyr-syn-defnyddio-darpariaeth-pru-ac-eotas.pdf [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Llywodraeth Cymru (2018c) *Adolygiad o'r broses gofrestru ar gyfer dysgwyr yn unedau cyfeirio disgyblion (UCD) ac addysg heblaw yn yr ysgol (AHY).* Caerdydd: Llywodraeth

Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/adolygiad-or-broses-gofrestru-ar-gyfer-dysgwyr-yn-unedau-cyfeirio-disgyblion-dysgwyr-mewn-addysg [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Llywodraeth Cymru (2018d) *Llawlyfr ar gyfer Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/llawlyfr-ar-gyfer-pwyllgorau-rheoli-unedau-cyfeirio-disgyblion.pdf [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Llywodraeth Cymru (2019a) *Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/gwahardd-o-ysgolion-unedau-cyfeirio-disgyblion.pdf [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Llywodraeth Cymru (2019b) *Fframwaith Gweithredu ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-09/fframwaith-gweithredu-ar-gyfer-darpariaeth-addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-2019.pdf [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Llywodraeth Cymru (2020) *Adolygiad o Drefniadau Comisiynu Awdurdodau Lleol ar gyfer Darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-06/adolygiad-o-drefniadau-comisiynu-awdurdodau-lleol-ar-gyfer-darpariaeth-addysg-heblaw-yn-yr-ysgol.pdf [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Llywodraeth Cymru (2022a) *Adolygiad presenoldeb – goblygiadau pandemig COVID-19 ar bresenoldeb mewn ysgolion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-04/adolygiad-presenoldeb-goblygiadaur-pandemig-covid-19-ar-bresenoldeb-mewn-ysgolion.pdf [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Llywodraeth Cymru (2022b) *Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol: Medi 2021 i Awst 2022.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.llyw.cymru/disgyblion-syn-derbyn-addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-medi-2022-i-awst-2023-cyhoeddiad [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Llywodraeth Cymru (2022c) *Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) - Cwricwlwm.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-ahy [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

McCluskey, G. et al. (2013) *Evaluation of Education Provision for Children and Young People Educated Outside the School Setting: Final Report.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://dera.ioe.ac.uk/18415/1/130624-evaluation-education-provision-children-young-people-educated-outside-school-setting-en.pdf [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

OECD (2017) *Y Daith i Ddiwygio Addysg yng Nghymru: Asesiad Polisi Cyflym.* Paris: OECD. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.oecd.org/education/The-Welsh-Education-Reform-Journey-FINAL.pdf [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Ofsted (2013) *Pupils missing out on education: low aspirations, little access, limited achievement.* Manchester: Ofsted. [Ar-lein]. Ar gael o: https://dera.ioe.ac.uk/18825/1/Pupils missing out on education.pdf [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Reid, K. (2008) *National Behaviour and Attendance Review.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.home-education.org.uk/articles/wc/wc-nbar-origional-review.pdf [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Samariaid Cymru (2018) *Gwahardd unigolion o addysg yng Nghymru – Y gost gudd.* Caerdydd: Samariaid Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.samaritans.org/cymru/about-samaritans/research-policy/inequality-suicide/exclusion-school-wales-hidden-cost/ [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Senedd Cymru, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2018) *Cyrraedd y Nod? Cyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol.* Caerdydd: Senedd Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://senedd.cymru/laid%20documents/cr-ld11615/cr-ld11615-w.pdf [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Senedd Cymru, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2019a) *Addysg Heblaw yn yr Ysgol.* Caerdydd: Senedd Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=25723 [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Senedd Cymru, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2019b) *Addysg Heblaw yn yr Ysgol: Nodyn ymweliadau pwyllgor ar 28 Tachwedd 2019.* Caerdydd: Senedd Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://business.senedd.wales/documents/s97671/CYPE5-03-20%20-%20Paper%204%20-%20Note%20from%20visits%20on%2028%20November.pdf [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

Senedd Cymru, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2020) *Ymgysylltu â Dinasyddion: Crynodeb o Arolwg Ar-lein AHY*. Caerdydd: Senedd Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://business.senedd.wales/documents/s100028/Citizen%20Engagement%20EOTAS%20Online%20Survey%20Summary%2019%20March%202020.pdf [Darllenwyd 1 Mawrth 2023]

## Deddfwriaeth

Adran 4 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006

Adran 19A(1) Deddf Addysg 1996

Adran 19(6) Deddf Addysg 1996

Adran 463 Deddf Addysg 1996

Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2020